UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18

HC: 1103

UK Government
Llywodraeth y DU

# Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18

(Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2018)

Cyfrifon wedi'u cyflwyno i Dŷ'r Cyffredin yn Unol ag Adran 6(4) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Adroddiad Blynyddol wedi'i gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin o Dan Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchymynnwyd i'w hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin**

28 Mehefin 2018

HC: 1103

Mae hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol sydd, ynghyd â Phrif Amcangyfrifon 2018-19, dogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiad Ystadegol 2018, ac Amcangyfrifon Cyflenwad 2017-18: Gwybodaeth Gyllidebol Atodol, yn cyflwyno alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2017-18 a'r gwariant a gynllunnir ar gyfer 2018-19.

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2018**

Cewch aliddenfynddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng io dan delerau f3 y Drwydded Llwydodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch, i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications publications. Dylid anfon unrhyw ymholidau ynglŷn a'r cy.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.gov.uk/government/publications ac oddi ar ein gwefan yn www.walesoffice.gov.uk

ISBN – 978-1-5286-0558-8

CCS no – CCS0618898832 06/18

Argraffwyd y ddogfen hon ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

**Pennod 1 – Yr Adroddiad Perfformiad** 1

Rhagair Gweinidogol 1

Cyflwyniad y Cyfarwyddwr 3

Trosolwg Adrannol 4

**Pennod 2 – Yr Adroddiad Atebolrwydd** 22

Adroddiad ar Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwr 22

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 24

Y Datganiad Llywodraethu 26

Adroddiad Cydnabyddiaeth a Thâl 37

Adroddiad Taliadau 37

Adroddiad Staff 48

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio 55

Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin 62

**Pennod 3 – Y Datganiadau Ariannol** 66

**Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** 88

# 1 Yr Adroddiad Perfformiad

## Rhagair Gweinidogol

Creu Cymru hyderus, sy'n edrych tuag allan, ac sy'n barod at y dyfodol – yn fy marn i, mae hyn yn crynhoi blwyddyn uchelgeisiol a chynhyrchiol i Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Wrth i Brydain baratoi i addasu ar gyfer rôl newydd yn y byd ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n addas bod gweithgareddau rhyngwladol wedi bod yn thema allweddol yn y misoedd diwethaf.

Mae teithiau masnach wedi gwneud llawer i dynnu sylw at Gymru fel gwlad sydd â sgiliau unigryw a phobl sy'n awyddus i wneud busnes ym mhob man. Fel Ysgrifennydd Gwladol, tynnais sylw at y neges hon ar ymweliad â Japan – partner masnach allweddol i Gymru – ac yn yr un modd, ar ymweliad ag Efrog Newydd fel rhan o Fwrdd Masnach Llywodraeth y DU.

Roedd hefyd yn fraint i mi gael hedfan ar y daith uniongyrchol gyntaf o Qatar i Gaerdydd, a sicrhawyd â chefnogaeth Llywodraeth y DU dros nifer o flynyddoedd – llwybr sy'n hyrwyddo busnes Cymru'n uniongyrchol yn economïau deinamig gwladwriaethau'r Gwlff, ond sydd hefyd yn gosod y llwyfan ar gyfer rhagor o fuddsoddiad yn ein gwlad gan y Dwyrain Canol.

Nod y gweithgaredd hwn yw sicrhau ein bod ni'n creu'r amodau i fusnesau ffynnu yng Nghymru, a chreu swyddi sy'n gofyn am lawer o sgiliau ac sydd â chyflogau uchel.

Roedd y penderfyniad i ddiddymu tollau dros Afon Hafren yn rhan arwyddocaol o'r strategaeth hon. Nid yn unig mae cael gwared â'r tollau'n arwain at arbediad sylweddol i yrwyr, bydd hefyd yn arwain at £100m y flwyddyn yn ychwanegol i economi Cymru wrth i draffig busnes sy'n llifo'n rhwydd ein cysylltu ni'n gyflym ac yn rhwydd â busnesau ar ochr draw y ffin am y tro cyntaf mewn hanner canrif.

Rydym yn adeiladu ar y cydweithredu naturiol rhwng De Cymru a De Orllewin Lloegr drwy fynd ar drywydd coridor twf trawsffiniol ar draws y rhanbarth. Fel y mae Pwerdy Gogledd Lloegr yn cysylltu Gogledd Cymru â phrif ddinasoedd Gogledd Lloegr, mae Pwerdy Mawr y Gorllewin yn ddatblygiad tebyg sy'n ceisio arwain at fuddsoddiad newydd.

Mae Cynlluniau Dinesig a bargeinion twf yn pennu'r templedi ar gyfer twf ledled Cymru, o Abertawe i Wrecsam ac o Gaerdydd i Gaernarfon.

Er mwyn cefnogi ein heconomi, mae Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd adrannau a phaneli arbenigwyr gyda gweinidogion ar draws y

Llywodraeth. Mae'r rhain yn trafod pynciau o dwristiaeth i'r diwydiant llaeth a Sioe Frenhinol Cymru – ffenestr siop ragorol ar gyfer ein cynnyrch bwyd ardderchog.

Mae strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DU wedi arwain at ffocws newydd ar y gwaith hwn drwy gyfrwng y gwahanol gynlluniau â'r sectorau. Bydd y cynlluniau hyn yn caniatáu i economi Cymru fanteisio ar ei chryfderau mewn rhai diwydiannau allweddol – gwasanaethau ariannol, hedfan, pŵer niwclear ac adeiladu. Fel y gwyddom, mae Caerdydd bellach yn ganolfan ddigyffelyb ar gyfer gwasanaethau ariannol ac mae Gogledd Cymru yn cael ei gydnabod yn genedlaethol am ei sgiliau technoleg awyrennau, yn filwrol a sifil.

Mae sicrhau'r fargen orau i Gymru'n naturiol yn golygu sicrhau ein bod ni'n gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl â Llywodraeth Cymru. Rwy'n arbennig o falch ein bod ni, mewn partneriaeth â Bae Caerdydd, wedi cyd-drafod y Bil Ymadael mewn proses a oedd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ganiatáu cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Gwerth y cytundeb hwn yw'r sicrwydd a'r eglurder y mae'n ei olygu i fusnesau Cymru wrth i Brexit agosáu. Mae'r berthynas aeddfed rhwng llywodraethau San Steffan a Bae Caerdydd wedi caniatáu i ni ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd wir yn bwysig – diogelu swyddi a chanfod cyfleoedd newydd i gael Cymru hyderus, gosmopolitaidd sy'n falch o'i gorffennol ac sy'n uchelgeisiol ar gyfer ei dyfodol.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i'm tîm o Weinidogion, Stuart Andrew AS a'r Arglwydd Bourne o Aberystwyth a'r Ysgrifennydd Seneddol Preifat Glyn Davies AS, am eu holl waith caled a'u cymorth; ac i'r tîm cyfan yn Swyddfa Cymru am barhau i ymateb i'r her o gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer pobl Cymru.

**Y Gwir Anrh. Alun Cairns AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Gorffennais fy nghyflwyniad i Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol y llynedd drwy addo y byddai'r Swyddfa hon yn llais cryf yn San Steffan ac yn bresenoldeb gweledol yng Nghymru. Rwyf yn credu bod Adroddiad eleni yn dangos mai dyna yn union sydd wedi digwydd. Rydym yn parhau i ymwneud yn agos â'r gwaith mewn perthynas â Gadael yr UE – gan sicrhau bod buddiannau Cymru wrth galon y Llywodraeth – ond yr un mor bwysig, rydym wedi gweithio'n galed i estyn allan i randdeiliaid fel y gall ein safbwyntiau fod yn rhai a hysbyswyd gan y bobl a'r sefydliadau y byddir yn effeithio fwyaf arnynt. Rydym wedi mabwysiadu'r un dull cynhwysol mewn meysydd eraill hefyd, o Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf ar hyd a lled Cymru i'r Strategaeth Ddiwydiannol a chefnogi masnach a buddsoddi. Rwyf yn arbennig o falch o'r rôl y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i Swyddfa wedi ei chwarae er mwyn sicrhau ddiddymu tollau Pont Hafren, rhywbeth fydd yn rhoi hwb anferth i economi Cymru.

Bydd y deuddeg mis nesaf yn hyd yn oed fwy heriol, ond mae ansawdd ac ymroddiad ein staff yn golygu nad oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwn yn llwyddo ac yn parhau i gyflawni dros Gymru.

**Glynne Jones**
**Cyfarwyddwyr**

# Trosolwg Adrannol

## Mae Trosolwg Strategol yr Adran yn nodi ein gwaith o dan dri amcan

Mae'r Swyddfa yn cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru o ran hyrwyddo buddiannau Cymru fel rhan o Deyrnas Unedig gref. Ni yw wyneb Llywodraeth y DU yng Nghymru a llais Cymru yn Whitehall. Ein nod sylfaenol, a'n nod barhaus yw cefnogi Undeb y Deyrnas Unedig.

Yn gysylltiedig â'r amcan allweddol hwn ceir nod mwy uniongyrchol, sef sicrhau bod y DU, yn cynnwys Cymru, yn y sefyllfa gryfaf posibl pan fyddir yn gadael yr UE. Ein tri amcan allweddol o ran cefnogi'r blaenoriaethau hyn yw:

### *Amcan 1 – Economi Gryfach a Phrydain Fyd-eang: cefnogi economi gref ac eangfrydig yng Nghymru*

***Sicrhau bod gan y DU bolisi masnachu a buddsoddi tramor sy'n cyflawni dros Gymru. Gweithio â'r Adran Fasnach Ryngwladol (DIT), Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn hyrwyddo Cymru a busnesau Cymru o gwmpas y byd.***

Ym mis Awst 2017, teithiodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Japan ar daith fasnach er mwyn ymgysylltu â chwmnïau rhyngwladol blaenllaw a thrafod potensial mawr mwy o fewnfuddsoddi yn y Deyrnas Unedig. Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod swyddogion gweithredol o Panasonic, Toyota, Sony a Hitachi er mwyn cynnig y sicrwydd y bydd Cymru yn parau i fod yn wlad mor eangfrydig ac uchelgeisiol ag erioed ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyfarch Clwb Hiraeth, sefydliad y sefydlwyd gan swyddogion gweithredol yn Japan sydd wedi gweithio yng Nghymru, ar ei ben-blwydd yn 35 oed, gan dalu teyrnged i'r cysylltiadau busnes rhwng y ddwy wlad.

Teithiodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Qatar ym Medi 2017 gan gyfarfod â buddsoddwyr o Qatar er mwyn trafod y cyfleoedd masnachol niferus sydd gan Gymru i'w cynnig. Cyfarfu ag uwch swyddogion gweithredol Qatar Airways er mwyn trafod cychwyn hediadau uniongyrchol arfaethedig rhwng Caerdydd a phrif-ddinas Qatar, Doha. Roedd hynny yn adeiladu ar drafodaethau rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a Qatar Airways ym Mawrth 2017, Fforwm Buddsoddi Qatar yn Birmingham a gwaith pwysig yr Adran Fasnach Ryngwladol yn Qatar.

Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymuno â Bwrdd Masnach newydd y DU fel Ymgynghorydd, er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli'n llawn a bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried wrth i Lywodraeth y DU ymdrechu i hybu masnach y DU dramor. Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol ac ymgynghorwyr eraill o Gymru fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ym Mryste a Preston a gynhaliwyd er mwyn helpu i hybu allforion, denu mewnfuddsoddwyr a sicrhau bod buddion masnach rydd yn cael eu lledaenu'n gyfartal ledled y DU, yn cynnwys Cymru.

Ym mis Chwefror 2018, aeth yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â dau Ymgynghorydd arall ar y Bwrdd Masnach, ar ymweliad tri diwrnod ag Efrog Newydd, New Jersey a Pennsylvania, ac roedd y daith yn amcanu at adeiladu ar y berthynas fasnachu bresennol rhwng Cymru a chwmnïau yn UDA. Yn ogystal â swyddogion gwladol, bu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod â chynrychiolwyr cwmnïau mewn meysydd yn cynnwys fferylliaeth a seiberddiogelwch, gan gyflwyno'r achos o blaid Cymru fel cyrchfan i fuddsoddi ynddi.

Bu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd hyrwyddo Cymru yng Ngŵyl Arloesi GREAT yn Hong Kong ym mis Mawrth 2018, gan ymuno â'r ymdrech i hyrwyddo'r DU a Chymru fel partner masnachu gyda Hong Kong a gweddill Asia. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol brif araith i'r ŵyl, cynhaliodd gyfarfodydd â chwmnïau mawr yn cynnwys Detroit Electric, Sanpower, a British Telecom, a mynychodd gyfarfod busnes a gynhaliwyd gan Gymdeithas Dewi Sant. Bu i nifer o fusnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, yn cynnwys y cynhyrchydd lled-ddargludon cyfansawdd IQE, fynychu'r ŵyl hefyd, gan godi proffil busnesau Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Yn ogystal â'r teithiau tramor, rydym wedi gweithio'n agos er mwyn sefydlu cysylltiadau â'n cymheiriaid yn yr Adran Fasnach Ryngwladol (DIT) a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi bwydo i ddatblygiad polisi masnach drwy rwydweithiau lefel swyddogol, gan sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid o Gymru yn cael eu clywed, a bod yr effaith ar y cenhedloedd datganoledig yn cael ei ystyried yn llawn. Rydym wedi ymuno â digwyddiadau masnach ac allforio Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau neges gydlynol a chynyddu ymwybyddiaeth bod busnesau Cymru yn gymwys i gael cymorth gan y ddwy lywodraeth.

***Darparu buddsoddiad seilwaith Llywodraeth y DU***

Bu i ni weithio gyda chydweithwyr o'r Adran Drafnidiaeth a Thrysorlys EM er mwyn cyflawni rhwymedigaeth maniffesto'r Llywodraeth o ddileu tollau Pont Hafren ar ôl i'r consesiynau gweithredu ddod i ben. Ar ôl sicrhau cytundeb y Cabinet, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar 21 Gorffennaf 2017 y byddai'r tollau yn cael eu diddymu erbyn diwedd 2018. Croesawyd y penderfyniad i ddiddymu'r tollau, oedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Ysgrifennydd Gwladol, gan fusnesau a rhanddeiliaid lleol ledled De Cymru a De Orllewin Lloegr.

Ar 5 Gorffennaf 2017 cyhoeddodd y Llywodraeth ei Strategaeth Buddsoddi mewn Trafnidiaeth oedd yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth i gynnal ac uwchraddio seilwaith trafnidiaeth Prydain Fawr. Gweithiodd â chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth er mwyn datblygu Strategaeth oedd yn cydnabod yn briodol y setliadau datganoli mewn perthynas â seilwaith trafnidiaeth a hyrwyddo rôl buddsoddiad Llywodraeth y DU yn y sector mewn perthynas â Chymru. Roedd ein hymgysylltiad o ran datblygu'r strategaeth yn sicrhau bod blaenoriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o wella cysylltedd trawsffiniol wrth galon Strategaeth Buddsoddi mewn Trafnidiaeth y Llywodraeth.

Rhwng 29 Tachwedd 2017 a 21 Chwefror 2018, bu i'r Llywodraeth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus i ddyfodol masnachfraint rheilffordd y Great Western, y mae eu gwasanaethau yn chwarae rôl gritigol o ran cysylltu teithwyr a chymudwyr yn Ne Cymru ac i Orllewin Lloegr a Llundain. Ym mis Chwefror, gan weithio â chydweithwyr o'r Adran Drafnidiaeth, bu i ni drefnu cyfres o ddigwyddiadau ar hyd rhwydwaith Great Western, yn cynnwys digwyddiadau yng Nghaerdydd, Abertawe a Chaerfyrddin. Bu i'r digwyddiadau roi

cyfle i deithwyr yng Nghymru fynegi yn uniongyrchol i unigolion allweddol yn yr Adran Drafnidiaeth beth oedd eu gofynion mewn perthynas â gwasanaethau a gorsafoedd sy'n rhan o'r fasnachfraint. O ganlyniad i gynnal y digwyddiadau hyn, cyflwynwyd nifer o gyflwyniadau ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Ar 20 Gorffennaf 2017 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth bod y Llywodraeth yn darparu'r arian i ddatblygu chwe Achos Busnes Amlinellol Strategol fyddai'n edrych ar welliannau i seilwaith rheilffyrdd Cymru er mwyn gwella siwrneiau i deithwyr rheilffyrdd. Bydd yr Achosion Busnes Amlinellol Strategol yn edrych ar wella:

- darpariaeth gorsafoedd yn, ac o gwmpas Abertawe, yn cynnwys potensial ar gyfer Parkway Abertawe; ac
- amseroedd teithio o Abertawe a Gorllewin Cymru i Gaerdydd, Bryste a Llundain;
- cyflymderau llinellau ar Brif Linell Arfordir Gogledd Cymru;
- amseroedd teithio rhwng Wrecsam a Bidston;
- cyflymderau llinell rhwng Caerdydd a Chyffordd Twnnel Hafren; a
- Gorsaf Rheilffordd Caerdydd Canolog.

Ers cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, rydym wedi bod yn datblygu'r achosion busnes hyn mewn cydweithrediad agos â swyddogion o'r Adran Drafnidiaeth, Network Rail a Llywodraeth Cymru.

Gan gydweithio â Chydweithwyr o'r Adran Drafnidiaeth, rydym wedi parhau i gefnogi partneriaid lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr wrth ddatblygu eu cynlluniau i wella cysylltedd rheilffyrdd ledled y rhanbarth. Yn benodol rydym wedi rhoi arweiniad a chymorth i gynghrair Growth Track 360 mewn perthynas â'u prosbectws Rheilffyrdd Strategol Cymru a'r Gorllewin o ran gwelliannau posibl yn ardal Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Ddwyrain Cymru. Ar 20 Chwefror, ymunodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Tŷ'r Cyffredin) â'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth yn lansiad prosbectws Growth Track 360 yn Nhŷ'r Cyffredin. Wrth gloi bu i'r Gweinidog bwysleisio neges allweddol yr Ysgrifennydd Gwladol bod gwella cysylltedd yn rhan ganolog o gynyddu cydweithrediad trawsffiniol a chyflawni twf economaidd ar y ddwy ochr i'r ffin.

Bu i ni weithio â'r Swyddfa Gartref er mwyn sicrhau bod y peiriannau Offer Canfod Ymhonwyr diweddaraf yn cael eu gosod ym Maes Awyr Caerdydd, ac mae'r peiriannau arloesol yma yn cynorthwyo swyddogion Llu Ffiniau'r DU i wirio dogfennau a chadw ein ffiniau'n ddiogel.

Mae sicrhau bod Cymru yn elwa o'r mentrau digidol cyffrous y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflawni ledled yr Undeb yn un o amcanion allweddol y Swyddfa. Rydym wedi gweithio â'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar amlygu cyfleoedd i ardaloedd yng Nghymru gael mynediad at fuddsoddiad. Cyhoeddwyd yn Natganiad y Gwanwyn bod Caerdydd wedi bod yn un o'r ceisiadau llwyddiannus o dan Don 2 Rhaglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol DCMS.

Mae'n bwysig fod Cymru wrth galon technoleg newydd mewn perthynas â chysylltedd yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Rydym wedi gweithio'n agos â DCMS er mwyn amlygu'r cyfleoedd yng Nghymru. Dewiswyd Sir Fynwy fel un o safleoedd Profi 5G er mwyn gwella cysylltedd gwledig.

Mae gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall Cymru ei wneud i fodloni anghenion ynni y DU yn flaenoriaeth allweddol i'r Swyddfa. Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarfod â Hitachi, rhiant gwmni Horizon Nuclear Power, ar nifer o achlysuron yn ystod ymweliad â Japan ym mis Awst.

Rydym yn parhau i gefnogi Horizon Nuclear Power a rhanddeiliaid lleol wrth iddynt weithio ar gytuno ar ddatganiad ar y cyd o dir cyffredin mewn perthynas ag effeithiau lleol datblygiad Wylfa Newydd cyn cyflwyno eu cais DCO.

Fel mesur o'n llwyddiant, bu i Horizon Nuclear Power gyflwyno ei gais am drwydded safle i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear, a chymeradwywyd cais Horizon am Asesiad Dyluniad Generig o'i Uwch Adweithydd Berwi Dŵr (ABWR) gan yr ONR yn Rhagfyr 2017. Hon fyddai'r adweithydd ABWR gyntaf yn y wlad. Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu â'r Adran Busnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol a phartneriaid yn ehangach ar gynigion ar gyfer Lagŵn Llanw Bae Abertawe.

Bu i ni barhau â'n hymdrechion i sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn gallu cyfrannu at bolisi ynni yn y dyfodol. Ym mis Chwefror, bu i ni gynnal digwyddiad ymgynghori gyda BEIS mewn perthynas â rowndiau Contractau Gwahaniaeth (CfD). Mae'r cynllun CfD yn rhoi cymorth i brosiectau ynni isel newydd, er mwyn sicrhau bod cynlluniau ynni adnewyddadwy yn gynaliadwy ac yn gallu darparu'r gwerth gorau i dalwyr biliau.

Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu llain lanio RAF Y Fali ym Medi 2017 am £20m, pan fu i'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Tŷ'r Cyffredin) ymweld. Bydd y gwaith adnewyddu yn helpu i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o beilotiaid ymladd ar gyfer y Llu Awyr Brenhinol a'r Llynges, gan ddangos ein hymrwymiad i sicrhau buddsoddiad hirdymor mewn amddiffyn yng Nghymru.

***Sicrhau bod polisi economaidd y DU yn gweithio i Gymru***

Mae'r Swyddfa wedi bod yn gweithio'n agos â'r Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) er mwyn sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Roedd hynny yn cynnwys gweithio gyda BEIS wrth iddo ddatblygu polisi, ac annog cydweithio â Llywodraeth Cymru ar faterion sydd yn berthnasol i'r ddwy Lywodraeth.

Rydym hefyd wedi cefnogi gweithredu'r Strategaeth Ddiwydiannol yng Nghymru, drwy gyflwyno bargeinion sector ar gyfer sectorau megis y diwydiannau moduro a chreadigol. Roedd y Strategaeth Ddiwydiannol hefyd yn amlinellu pwysigrwydd coridorau twf trawsffiniol i Gymru, ac mae'r Swyddfa yn arwain y gwaith er mwyn sicrhau nad yw ffiniau gweinyddol yn amharu ar dwf.

Yn dilyn y cyhoeddiad y byddid yn diddymu tollau Afon Hafren, ym mis Ionawr bu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gynnal yr Uwchgynhadledd Twf Hafren drawsffiniol gyntaf. Bu i'r digwyddiad ddod â phartneriaid lleol a busnesau at ei gilydd o bob cwr o

Dde Orllewin Lloegr a De Ddwyrain Cymru er mwyn archwilio sut y gellir atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y ddwy economi.

Mae'r Swyddfa wedi parhau i weithio'n agos gydag Innovate UK er mwyn cefnogi arloesedd yng Nghymru. Ym mis Hydref cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol fuddsoddiad o £800,000 gan Lywodraeth y DU yng nghanolfan SPECIFIC Prifysgol Abertawe ar gyfer creu swyddfa ynni bositif gyntaf y DU.

Ym mis Rhagfyr bu i ni gyhoeddi cychwyn trafodaethau ffurfiol ar Fargen Twf Gogledd Cymru. Ers hynny cynhaliwyd cyfarfodydd a thrafodaethau helaeth â phartneriaid lleol ac mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud o ran cytuno ar fargen. Mae gweinidogion wedi ymweld â'r rhanbarth drwy gydol y flwyddyn, gan gyfarfod â rhanddeiliaid allweddol megis awdurdodau lleol, prifysgolion a'r sector preifat. Ein ffocws fu blaenoriaethu mireinio cynigion er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu bargen fydd yn cyflawni ar ran pobl Gogledd Cymru ac yn eu galluogi i gyflwyno prosiectau gweddnewidiol ar gyfer y rhanbarth.

Rydym yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid yn Rhanbarth Prif-ddinas Caerdydd er mwyn cyflawni'r Fargen Ddinesig, y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo £500m tuag ati er mwyn darparu cronfa fuddsoddi a chefnogi trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd. Ym mis Medi bu i'r Ysgrifennydd Gwladol fynychu seremoni lofnodi er mwyn cadarnhau datblygu clwstwr diwydiant lled-ddargludyddion cyfansawdd yn Ne Ddwyrain Cymru, yn dilyn buddsoddiad o £37.9m mewn cyfleuster arloesol fydd yn gweithredu fel angor yn y rhanbarth ar gyfer cynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd. Ym mis Chwefror penodwyd aelodau'r cyngor busnes, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos â'r Cadeirydd, Neil Brierley, er mwyn sicrhau bod y fargen yn adlewyrchu anghenion cymuned fusnes y rhanbarth.

Yng nghyllideb Tachwedd 2017 bu i ni gyhoeddi ein bod yn agored i ystyried bargen dwf yng Nghanolbarth Cymru. Ers hynny, mae Gweinidogion wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu i randdeiliaid yn y rhanbarth gyda chynrychiolwyr o brifysgolion, addysg bellach a'r sector preifat. Ein nod fu ysbrydoli'r rhanbarth i gofleidio'r cyfle hwn â dwy fraich ac i bartneriaid ddod at ei gilydd i ddechrau datblygu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Canolbarth Cymru.

Yn dilyn y cytundeb penawdau'r telerau hanesyddol a lofnodwyd y llynedd, ein ffocws ar gyfer Bargen Ddinesig Abertawe ar gyfer eleni fu cefnogi'r rhanbarth i ddatblygu eu hachosion busnes er mwyn datgloi'r cyllid a addawyd. Mae'r gwaith o ymgysylltu â'r sector preifat wedi bod yn flaenoriaeth, a recriwtiwyd Cadeirydd y Bwrdd Strategol Economaidd yn ystod misoedd olaf y flwyddyn.

Dyfarnwyd contract gwerth £330m i ddylunio'r genhedlaeth nesaf o gyfathrebu maes y gad i General Dynamics yn Oakdale ar 6 Ebrill 2017. Bu i'r contract ddiogelu 250 o swyddi ar gyfer gweithlu sgiliedig iawn yr ardal a thanlinellodd bwysigrwydd Cymru i'n Lluoedd Arfog.

***Ymgysylltu â rhanddeiliaid***

Mae'r Swyddfa wedi parhau i gynyddu ei gweithgareddau ymgysylltu â busnesau ledled Cymru er mwyn sicrhau bod polisi economaidd y DU yn gweithio i Gymru a bod gan

randdeiliaid yng Nghymru fynediad llawn at gymorth Llyworaeth y DU. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau, gyda Gweinidogion ac ar lefel swyddogol, yn ystod y flwyddyn. Mae ein gweithgareddau ymgysylltu wedi ystyried safbwyntiau gwahanol randdeiliaid o amrywiaeth o wahanol sectorau ledled Cymru. Rydym wedi sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn cael eu deall ar draws amrywiaeth o Adrannau Llywodraeth y DU.

Hefyd bu i'n Gweinidogion ymgymryd â rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau i weld â'u llygaid eu hunain sut mae busnesau yng Nghymru yn gweithio yn galed i gynyddu cynhyrchiant, creu swyddi a chefnogi twf economaidd ehangach.

Mae'r Swyddfa wedi gweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid lleol er mwyn canfod datrysiad cynaliadwy ar gyfer dyfodol Gwaith Peiriannau Ford ym Mhen-y-Bont ar Ogwr.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i weithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Gweinidogion eraill er mwyn sicrhau dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru, ac mae wedi bod yn rhan o ymateb trawsadrannol i gyhoeddiad ynghylch gweithredu posibl ar fewnforion gan weinyddiaeth UDA. Mae'r Swyddfa, ar lefel weinidogol a swyddogol, yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y sector dur, yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymrwymedig i gefnogi busnesau a sefydliadau diwylliannol yng Nghymru i hyrwyddo Cymru ar y llwyfan byd-eang, ac mae wedi bod yn hyrwyddo menter Wythnos Cymru yn Llundain – gŵyl flynyddol sy'n dathlu buddiannau Cymru yn Llundain drwy gyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi. Yn ystod y digwyddiad eleni, bu i'r Ysgrifennydd Gwladol annog busnesau Cymru i fynd â'u cynhyrchion a'u gwasanaethau i farchnadoedd y byd mewn digwyddiad 'Dathlu Masnach Cymru' a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Adran Fasnach Ryngwladol a'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad. Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddathlu cryfder ac amrywiaeth diwylliant Cymreig mewn derbyniad yn Nhŷ Gwydyr, ac mewn digwyddiad Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn y brif-ddinas. Roedd hyrwyddo'r genedl fel cyrchfan dwristaidd fyd-eang ar frig yr agenda pan fu i'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Tŷ'r Cyffredin) gadeirio cyfarfod ag arbenigwyr diwydiant yn yr Adran er mwyn trafod sut y gall Llywodraeth y DU roi mwy o gefnogaeth i'r farchnad sy'n blodeuo yng Nghymru.

## *Amcan 2 – Gadael yr UE: sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn wrth i ni adael yr UE*

***Sicrhau ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid ynghylch gadael yr UE ac yn ehangach***

Mae'r Swyddfa yn sicrhau bod buddiannau Cymru wrth galon meddyliau'r Llywodraeth wrth i ni symud tuag at adael yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Fel rhan o hynny, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid o Gymru wedi bod yn flaenoriaeth allweddol. Ar ôl cyflwyno Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yng Gorffennaf 2017, bu i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu Panel Gweithredu Arbenigol Gadael yr UE sy'n cynnwys sefydliadau a busnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt, neu ar eu haelodau, o ganlyniad i'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Panel wedi darparu fforwm i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch gadael yr UE ac er mwyn

galluogi i'w safbwyntiau hysbysu polisi Llywodraeth y DU, yn arbennig ynghylch fframweithiau.

Mae'r panel wedi cyfarfod chwe gwaith hyd yma ac mae amrywiol Weinidogion y Llywodraeth wedi ymuno ag ef, yn cynnwys yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a changhellor Dugiaeth Caerhirfryn. Mae cyfarfodydd diweddar y Panel wedi archwilio'n fanwl yr achos o blaid fframweithiau mewn meysydd penodol pan fo pwerau sy'n dychwelyd o'r Undeb Ewropeaidd yn gysylltiedig â setliad datganoli Cymru. Er mwyn helpu i hysbysu a chyfrannu at y gwaith hwn, mae arbenigwyr o sectorau perthnasol o fyd busnes Cymru ac o'r sector amgylcheddol wedi ymuno â'r Panel ar gyfer trafodaethau ar bynciau penodol.

Hefyd, mae ein Gweinidogion wedi ymgysylltu â digwyddiadau "bwrdd crwn" ynghylch gadael yr UE gyda chynrychiolwyr o sectorau penodol yr economi yng Nghymru, ynghyd â gweinidogion eraill Llywodraeth y DU megis yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol a'r Gweinidog dros Amaeth. Mae'r rhain wedi cael eu cynnal ledled Cymru ac maent wedi cynnwys byrddau crwn gyda ffermwyr, cynrychiolwyr o'r sectorau twristiaeth a gwyddorau bywyd ac arweinwyr o lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r ymgysylltu hwn â rhanddeiliaid yn galluogi i Weinidogion glywed safbwyntiau y rhai y mae gadael yr UE yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi rhoi tystiolaeth ar faterion sy'n gysylltiedig â dau o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth y DU i wella ymgysylltu â'r deddfwrfeydd datganoledig ynghylch gadael yr UE. Ym Medi rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dystiolaeth i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLAC) y Cynulliad fel rhan o'u ymholiad i berthnasoedd rhynglywodraethol. Ym mis Tachwedd rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd dystiolaeth i sesiwn ar y cyd rhwng y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a CLAC fel rhan o ymholiadau'r pwyllgorau hynny i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) .

Bu i'r Swyddfa hefyd hwyluso nifer o ymweliadau gan weinidogion proffil uchel o'r Llywodraeth â Chymru er mwyn cyfarfod â rhanddeiliaid i darfod materion perthnasol wrth i'r DU adael yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliad gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig â Sioe Llanelwedd ym mis Gorffennaf, pan fu iddo ef ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfarfod â rhanddeiliaid allweddol ym maes ffermio. Roedd ymwelwyr gweinidogol eraill yn cynnwys y Gweinidog Gwladol dros Ddiogelwch, a ymwelodd â Phorthladd Caergybi.

Ar lefel swyddogol, mae perthynas waith gref a chynhyrchiol yn parhau i fodoli gyda'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru. Er enghraifft, mae swyddogion Llywodraeth y DU (yn cynnwys swyddogion o'r Adran) yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion o Lywodraeth Cymru er mwyn trafod goblygiadau gadael yr UE ar Borthladdoedd Cymru.

**Sicrhau bod Bil Ymadael â'r UE a deddfwriaeth arall ynghylch gadael yr UE yn adlewyrchu buddiannau Cymru a'r DU.**

Er mwyn helpu i sicrhau bod gadael yr UE yn esmwyth a threfnus, mae'r Swyddfa wedi gweithio'n agos â'r Adra dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DExEU), Swyddfa'r Cabinet a Swyddfeydd Tiriogaethol eraill ar bolisi datganoli mewn perthynas â gadael

yr UE, fel y nodir hynny yng nghymalau datganoli Bil (Gadael) yr UE. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn aelod o bwyllgorau allweddol cabinet llywodraeth y DU ble caiff penderfyniadau strategol ar faterion ynglŷn â gadael yr UE eu gwneud, yn cynnwys y Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a Masnach, a gall fwydo safbwyntiau rhanddeiliaid Cymru yn uniongyrchol i benderfyniadau llywodraeth yr UE.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gan weithio â chydweithwyr Cabinet yn cynnwys cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn, wedi cymryd rhan mewn trafodaethau dwys â Gweinidogion Cymru ar y darpariaethau datganoli yn y Bil. Mae'r trafodaethau hynny wedi digwydd yn amlochrog, yn cynnwys mewn cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (JMC) (Trafodaethau Ewropeaidd), ac yn ddwyochrog mewn trafodaethau uniongyrchol rhwng Gweinidogion y DU a Gweinidogion Cymru. Mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt wrth i'r Bil barhau ar ei hynt drwy'r senedd.

Mae'r Swyddfa hefyd wedi gweithio'n agos ar ddadansoddi ble gallai fod angen fframweithiau cyffredin (y DU neu drwy Brydain Fawr) ar gyfer meysydd cyfraith yr UE fydd yn dychwelyd sy'n gysylltiedig â chymhwysedd datganoledig. Mae'r gwaith hwn wedi ei danategu gan yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogol ym mis Hydref.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn glir y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i allu gwneud yr holl benderfyniadau y maent yn eu gwneud nawr ar ôl adael yr UE, ac y bydd gadael yn golygu y bydd gweinyddiaethau yn derbyn pwerau newydd helaeth wrth i ni adael yr UE. Cadarnhawyd hynny pan gyhoeddodd Llywodraeth yr UE ddadansoddiad dros dro o bwerau'r UE fyddai'n dychwelyd ar 9 Mawrth[1].

Bu i'r dadansoddiad ddangos 64 o feysydd y mae Llywodraeth y DU yn credu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd datganoledig Cymru, a gellid gweithredu 40 ohonynt ar lefel ddatganoledig gyda naill ai dim camau ychwanegol yn angenrheidiol neu bod angen sefydlu fframweithiau aneddfwriaethol. Efallai y bydd 24 o feysydd polisi angen fframweithiau deddfwriaethol ar lefel y DU, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ac ar hyn o bryd maent yn destun dadansoddi a thrafodaeth fanylach.

Bydd yr Adran nawr yn gweithio ag adrannau eraill Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar roi fframweithiau deddfwriaethol ac aneddfwriaethol y DU ar waith, yn cynnwys yr elfen lywodraethu.

Mae'r Swyddfa wrth galon gwaith y Llywodraeth ar baratoi'r ddeddfwriaeth eilaidd sydd ei hangen er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gweithio ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hynny yn cynnwys trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar y cywiriadau sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod ein cyfreithiau yn gweithio mewn meysydd datganoledig ac annatganoledig ar ôl i ni adael yr UE.

Rydym hefyd yn gweithio ag adrannau eraill ar ddeddfwriaeth seneddol mewn perthynas â gadael yr UE er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu buddiannau Cymru yn llawn ac yn ystyried setliad datganoli Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y Bil Masnachu, Bil Tollau a'r Biliau Amaeth a Physgodfeydd arfaethedig.

1 https://www.gov.uk/government/publications/frameworks-analysis

## *Amcan 3 – Cenedl Unedig: darparu setliad datganoli mwy clir a chynaliadwy*

***Gweithredu Deddf Cymru 2017 a sicrhau bod y model newydd o ddatganoli Cymreig yn gweithio'n effeithiol.***

Mae Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer setliad datganoli cliriach, cryfach a thecach i Gymru. Mae'r model cadw pwerau newydd yn gosod datganoli Cymreig ar seiliau cadarn gyda gwahaniad clir rhwng materion wedi eu cadw a materion datganoledig. Yn dilyn ymgynghoriad â'r Prif Weinidog a Llywydd y Cynulliad, bu i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio rheoliadau ym mis Tachwedd sydd yn nodi mai 1 Ebrill 2018 oedd y 'Prif Ddiwrnod Penodedig', y diwrnod y daw'r model cadw pwerau newydd i rym. Dyma'r dyddiad hefyd y daw'r trethi datganoledig Cymreig i rym (gweler isod).

Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi grym i nifer o bwerau ychwanegol sy'n cael eu datganoli i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017. Mae hynny yn cynnwys pwerau dros etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, trafnidiaeth a'r amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o'r pwerau hyn hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill.

Bu i'r Swyddfa ddrafftio canllawiau i adrannau Llywodraeth y DU ynghylch gweithio gyda setliad datganoli newydd Cymru. Mae Nodyn 18 y Canllawiau Datganoli yn nodi sut y dylai swyddogion weithio gyda'r model cadw pwerau newydd wrth ddatblygu polisi llywodraeth y DU ac wrth ystyried effaith deddfwriaeth y Cynulliad. Ar ôl eu cyhoeddi, byddwn yn ymgysylltu ag adrannau allweddol er mwyn trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda swyddogion polisi.

Yn ystod hynt Deddf Cymru 2017, bu i'r Llywodraeth hefyd ymrwymo i egluro sut y bydd pob swyddogaeth weithredol mewn meysydd datganoledig yn cael eu gweithredu yn y dyfodol. Ar 28 Mawrth cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 drafft, sy'n trosglwyddo gweddill y swyddogaethau 'cyn-gychwyn'[2] mewn meysydd datganoledig yn ogystal â'r swyddogaethau hynny mewn meysydd sydd newydd eu datganoli na throsglwyddwyd ar wyneb Deddf Cymru 2017. Mae'r gorchymyn hefyd yn cyflawni ymrwymiad a wnaed yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi i egluro cyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau sifil wrth gefn yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn drafft yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Ddau Dŷ'r Senedd a Gweinidogion Cymru cyn y daw i rym.

**Protocol Dŵr**

Ym mis Tachwedd 2017 cytunodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar brotocol dŵr ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn diogelu adnoddau dŵr, cyflenwad dŵr, ac ansawdd dŵr ar gyfer cwsmeriaid ar y ddwy ochr i'r ffin. Mae'r protocol yn bodloni ymrwymiad allweddol a wnaed yn ystod hynt Deddf Cymru 2017 ac mae'n disodli pwerau ymyrryd yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â dŵr yn adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Daw'r protocol i rym o 1 Ebrill, y dyddiad pryd y diddymir y pwerau ymyrryd.

---

2 Mae swyddogaethau cyn-gychwyn yn swyddogaethau mewn meysydd datganoledig y gellir eu gweithredu gan Weinidogion y Goron cyn i'r Cynulliad ennill pwerau deddfu ar 5 Mai 2011.

**Deddf Cymru 2014**

Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei drydydd adroddiad ar y cynnydd a wnaethpwyd mewn perthynas â gweithredu darpariaethau ariannol Deddf 2014. Mae Deddf Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru adrodd yn flynyddol ar gynnydd i'r Senedd ac i'r Cynulliad. Bu i'r trydydd adroddiad amlygu bod trethi datganoledig Cymru oedd yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Tirlenwi yng Nghymru (y Dreth Trafodion Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ôl eu trefn) wedi dod i rym ar 1 Ebrill.

***Cefnogi buddiannau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r DU***

Ym mis Chwefror, Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd y person cyntaf i gyfarch cyfarfod o'r Uwch-Bwyllgor Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin yn yr Iaith Gymraeg. Er bod aelodau o'r pwyllgor wedi siarad Cymraeg eisoes wrth gyfarfod yng Nghymru, dyma oedd y tro cyntaf y bu i iaith gyntaf nifer o'i aelodau (yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol) gael ei defnyddio mewn trafodaeth ym Mhalas San Steffan y tu allan i bwyllgor dethol Materion Cymreig. Yn ogystal â dathlu treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol ei aelodau Cymreig a'u hetholwyr, ni chostiodd ddim i'r trethdalwr oherwydd bod cyllideb gyfredol y Senedd wedi talu am y gwasanaeth cyfieithu a ddarparwyd.

Ym mis Awst 2017 bu i ni gyhoeddi y byddai Euryn Ogwen Williams yn arwain adolygiad annibynnol o S4C. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Mawrth ac roedd yn archwiliad manwl a mewnweledol o 3 mater allweddol: Cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C a'i allu i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel; dulliau cyllido S4C; a'i strwythur llywodraethu. Mae'n cyflwyno pecyn o ddiwygiadau sydd â'r potensial i greu gwir newid er mwyn sicrhau bod S4C yn well sefydliad sydd yn gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymraeg yn fwy effeithiol ledled y DU a thramor. Bydd y Llywodraeth yn derbyn yr holl argymhellion, a chyhoeddodd hefyd y byddwn yn cynnal cyllid trysorlys S4C ar ei lefel bresennol am y 2 flynedd nesaf. Gyda'i gilydd mae hynny yn hynny yn rhoi'r sicrwydd cyllid sydd ei angen ar y sianel i gynllunio ar gyfer yr hirdymor a chyflawni'r diwygiadau sydd eu gwir angen.

Bu i'r Swyddfa roi cymorth i Glwb Criced Sir Morgannwg fel rhan o'u gais i gynnwys Caerdydd fel rhan o fasnachfraint criced City 2020. Cafodd stadiwm SWALEC – cartref GCC – ei ddewis fel lleoliad cynnal gemau gan atgyfnerthu lle Cymru fel cenedl y campau.

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ei fodd yn cynnal derbyniad i swyddogion o'n pedwar Heddlu Cymreig er mwyn diolch iddynt am y gwaith rhyfeddol maent yn ei wneud. Y llynedd bu i heddluoedd Cymru helpu i ymateb i gymaint o ddigwyddiadau cenedlaethol, megis yr ymosodiadau terfysgol ym Manceinion a Llundain, a thrychineb Grenfell, yn ogystal â thrychinebau rhyngwladol megis Corwynt Irma yn Ynysoedd British Virgin. Hefyd bu i swyddogion heddluoedd Cymru roi dosbarth meistr ar reoli diogelwch dros 200,000 o gefnogwyr yn ystod rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr yng Nghaerdydd.

Er na fu Abertawe na Thŷ Ddewi yn llwyddiannus yn eu cais i fod yn Brif-ddinas Diwylliant y DU, roedd y Swyddfa yn falch o gefnogi eu hymgyrchoedd a helpodd i

hyrwyddo y ddwy ddinas a threftadaeth unigryw Cymru i gynulleidfa ledled y DU gyfan a thu hwnt.

Ym Mehefin 2017 bu i ni gyhoeddi y byddwn yn cynnal Diwrnod y Lluoedd Arfog 2018 yn Llandudno. Bydd y dref yn cynnal y digwyddiad cenedlaethol ar 30 Mehefin – y tro cyntaf iddo gael ei gynnal yng Nghymru ers Caerdydd yn 2010.

Bu i ni weithio â'r Swyddfa Gartref, a ddyfarnodd £1.5m i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru er mwyn taclo trais yn erbyn merched a genethod.

Mae'n bwysig bod byrddau cyhoeddus sy'n gwasanaethu'r DU gyfan yn cael eu llenwi â phobl dalentog o bob rhan o'r Undeb. Mae'r Swyddfa wedi hyrwyddo'r cyfleoedd oedd ar gael drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys cynnal digwyddiad datblygu talent gyda BEIS ym mis Medi, ac amlygu ymgyrchoedd drwy gyfathrebiadau rheolaidd a sianelau cyfryngau cymdeithasol. Ym mis Gorffennaf penodwyd Elan Closs Stephens ar Fwrdd Unedig y BBC; yn Ionawr penodwyd Keith Towler ar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac yn fwy diweddar penodwyd y Dr Brian Morgan ar Bwyllgor Polisi Rheoleiddio BEIS.

Bu i ni barhau i weithio'n agos gyda cydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn hwyluso eu proses gaffael barhaus a chwblhau'r trefniadau ar gyfer datganoli masnachfraint Cymru a'r Gororau. Mae hynny wedi cynnwys cyflwyno gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau i drosglwyddo swyddogaethau masnachfreintio.

## Cyllid a Llywodraethu

Mae gwireddu'r tri amcan polisi uchod yn seiliedig ar chwe egwyddor effeithiolrwydd a llywodraethu corfforaethol da. Y rhain yw:

- **darparu gwerth am arian a rheoli costau'n effeithiol.** Rydym yn adolygu pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag adrannau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r Swyddfa er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu darparu yn effeithlon ac yn economaidd;

- **sicrhau rheoli ariannol da,** a bod rheolyddion ariannol effeithiol wedi eu sefydlu;

- **ymateb yn briodol a phrydlon** i ohebiaeth gan y cyhoedd, Cwestiynau Seneddol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau i'r Senedd a'r Cynulliad;

- **cynnal gweithlu cymwys iawn sydd wedi eu hysgogi** sy'n gallu cyfrannu at waith a chyfeiriad y Swyddfa yn y dyfodol;

- **rheoli gwybodaeth yn effeithiol,** sicrhau bod gwybodaeth a ddelir gan y Swyddfa yn cael ei rheoli a'i gwarchod yn briodol er mwyn diogelu buddiannau'r Llywodraeth ac aelodau unigol o'r cyhoedd; a

- **chreu amgylchedd gweithio dymunol** i bob aelod staff yn adeiladau'r Swyddfa.

Rydym yn rhoi'r egwyddorion yma ar waith wrth gynnal ein gweithgareddau corfforaethol allweddol.

***Cyllid***

Pennwyd cyllideb yr Adran 2017-18 yn ystod Rownd Wario 2015.

O'r setliad o £14.794 biliwn i Gymru, dyraniad Swyddfa Cymru ar gyfer 2017-18 oedd tua £5.1 miliwn, ac fe wariwyd hynny'n bennaf ar staff Swyddfa Cymru a llety, a chyfrifoldebau Adrannol megis ad-daliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Dyrannwyd gweddill y setliad (£14.789 biliwn) i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Swyddfa Cymru yn trefnu trosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru, ond Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn penderfynu sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'i ddefnydd o adnoddau, ac Archwiliwr Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

***Effeithlonrwydd***

Er mwyn helpu i gyflawni amcanion yr Adran a'r heriau , mae'r Swyddfa yn parhau i reoli ei waith yn effeithlon ac effeithiol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu da ac yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r Swyddfa yn gwbl ymrwymedig i rannu gwasanaethau ac arbenigedd gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol ac Adrannau'r Llywodraeth pryd bynnag fo hynny'n bosibl gan amcanu at wneud y mwyaf o bob cyfle sydd ar gael i sicrhau effeithlonrwydd ac atgyfnerthu ein cydnerthedd. Hyd yma sefydlwyd uned seneddol ar y cyd gyda'r Swyddfeydd Tiriogaethol eraill a gwasanaeth ceisiadau rhyddid gwybodaeth (FOI) ar y cyd gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon.

Mewn perthynas â llety, mae gan yr Adran denantiaid (Arglwydd Raglawiaeth Llundain Fwyaf a Chomisiwn Annibynnol Effaith Cymorth) yn y swyddfa yn Llundain a gynhyrchodd incwm rhent yn 2017-18 o £62k i'r Adran, ac mae'n gwneud defnydd mwy effeithlon o'n llety. Rydym hefyd mewn trafodaeth reolaidd ag Uned Eiddo'r Llywodraeth (GPU) ynghylch ei rhaglen Canolfannau ac wedi cytuno i symud i Ganolfan newydd Llywodraeth y DU yng Nghaerdydd pan fydd yn barod yn 2020.

Fel Adran fach, mae Swyddfa yn defnyddio dull cost effeithiol a phragmatig o ddarparu ein gwasanaethau mewnol a chorfforaethol, gan gynnal fframweithiau a chontractau presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) mewn meysydd megis diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn arwain at fuddion sylweddol i'r Adran o ran arbedion maint ac arbenigedd yn yr Adran. Rydym wedi sefydlu trefniadau lefel gwasanaeth gyda'r MoJ ar gyfer y gwasanaethau hyn.

***Rhwymedigaethau Pensiwn***

Mae manylion ynglŷn â sut mae rhwymedigaethau pensiwn yn cael eu trin yng nghyfrifon Swyddfa yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad Cydnabyddiaethau a nodyn polisi Cyfrifyddu 1.8.

***Tryloywder***

Mae tryloywder, atebolrwydd a didwylledd yn rhan ganolog o werthoedd craidd Swyddfa. Bu i ni barhau i gyhoeddi swm sylweddol o wybodaeth ar ein gwefan, yn cynnwys:

- gwariant dros £500;
- rhoddion a roddwyd ac a dderbyniwyd gan Weinidogion ( a gan y Cynghorwyr Arbennig);
- teithiau tramor Gweinidogol; a
- lletygarwch a dderbyniwyd gan Weinidogion a gan y Cynghorwyr Arbennig.

Yn ystod 2017-18 bu i ni ddelio â 176 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) fel y nodir isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Ceisiadau FOI a dderbyniwyd, O'u plith | 176 |
| Nifer yr ymatebion o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn estyniad a awdurdodwyd. | 175 (99%) |
| Ceisiadau am Adolygiadau Mewnol i'n hymatebion | 6 |
| Ymatebion a gyfeiriwyd at Y Comisiynydd Gwybodaeth | 0 |

Mae ein perfformiad Seneddol yn ystod 2017-18 yn cael ei grynhoi isod:

| Targed | Gwir % |
|---|---:|
| 100% o gwestiynau wedi eu hateb yn brydlon ar ddiwrnod penodol | 92% |
| 100% o gwestiynau ysgrifenedig arferol wedi eu hateb yn brydlon | 99% |

Ein perfformiad o ran trin cyfathrebiadau yn ystod 2017-18 oedd:

| Targed | Gwir % |
|---|---:|
| 100% o gyfathrebiadau wedi delio â hwy o fewn 15 diwrnod | 90% |

***Llety a gwaith Cyfalaf***

Prif swyddfa'r Adran yw Tŷ Gwydyr yn Whitehall, oedd yn dŷ tref sioraidd yn wreiddiol, ac sy'n adeilad rhestredig Gradd II*. Rydym yn derbyn ein cyngor a'n cefnogaeth broffesiynol gan dîm ystadau'r MoJ a gan ein asiantau rheoli ein hunain, er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni rheoliadau adeiladu a'n bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth ac unrhyw ddeddfwriaeth arall perthnasol. Mae gennym raglen

dreigl o waith cynnal a chadw ar gyfer Tŷ Gwydyr sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, ac rydym yn barhaus yn ceisio darparu amgylchedd gweithio diogel ar gyfer ein staff, gweinidogion ac ymwelwyr.

Hefyd, mae'r Adran yn rhentu gofod swyddfa (sy'n cynnal tua 38% o'i staff) yng Nghymru, ym Mae Caerdydd ger y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Fel y nodwyd ar y dudalen flaenorol, mae'r Swyddfa yn rhwymedig i symud i ganolfan newydd Llywodraeth y DU yng nghanol Caerdydd yn 2020.

Mae'r ddwy swyddfa yn bodloni gofynion y Ddeddf Anableddau.

***Iechyd a Diogelwch***

Ni adroddwyd am unrhyw fater iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn.

# Datblygu Cynaliadwy

Mae'r adroddiad datblygu cynaliadwy wedi cael ei pharatoi yn unol â chanllawiau 2017-18 a bennwyd gan Drysorlys EM yn 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: Adrodd ar Gynaliadwyedd' a gyhoeddwyd yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655945/Public_sector_annual_reports_sustainability_reporting_guidance_2017-18.pdf

Mae'r ffocws ar gyrraedd targedau'r Llywodraeth, lleihau effeithiau amgylcheddol a gostwng costau. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys gostwng allyriadau carbon, defnydd o ddŵr ac anfon gwastraff i dirlenwadau.

Mae'r Adran yn meddiannu Tŷ Gwydyr yn Llundain. Mae hefyd yn meddiannu rhan o Bwynt Caspian ym Mae Caerdydd, ond nid yw meddiannaeth ar y cyd yn cael ei ystyried oherwydd cyfyngiadau caffael data cynaliadwyedd dibynadwy o gostau gwasanaethau a ddarperir gan landlordiaid.

***Llywodraethiant, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol***

Mae'r Bwrdd Adrannol yn monitro perfformiad amgylcheddol yr Adran yn rheolaidd.

***Ymrwymiadau mewn perthynas ag Effeithiau Amgylcheddol – i'w diweddaru***

Mae Gwyrddu Ymrwymiadau'r Llywodraeth a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau weithredu i leihau effeithiau ar yr amgylchedd yn arwyddocaol. Mae'r ymrwymiadau yma i'w cael yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/585344/greening-government-commitments-overview-reporting-requirements-2016-2020.pdf

Mae'r Ymrwymiad yr Adran i Ostwng Carbon yn cael ei reoli gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae Swyddfa Cymru yn ymrwymedig i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy:

a. cynyddu'r ystod o eitemau y gellir eu hailgylchu yn ein dau adeilad;

b. amnewid argraffyddion gyda modelau mwy ynni effeithlon:

c. defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na cheir wrth deithio i gyfarfodydd.

| Tunelli Allyriadau C02 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
| Teithio ar Awyren | 19.8 | 0.63 | 3.56 | 5.09 | 36.01 |
| Teithio ar Drên | 8.66 | 10.07 | 10.12 | 16.06 | 15.56 |
| Milltiroedd mewn Ceir | 2.15 | 1.91 | 0.38 | 1.21 | 1.92 |
| Gwresogi Nwy | 16.35 | 10.76 | 16.77 | 18.81 | 23.59 |
| Trydan | 32.35 | 31.63 | 26.59 | 21.82 | 26.68 |
| Gwastraff | 0.83 | 0.87 | 0.32 | 0.18 | 0.11 |
| Cyfanswm Tunelli CO2 | 80.14 | 55.87 | 57.74 | 63.17 | 103.87 |
| Defnyddio dŵr Metrau Ciwbig* | 869 | 2224 | 1972 | 6271 | 385 |

* Bu i'r defnydd o ddŵr gynyddu yn ystod 2016-17 o ganlyniad i ollyngiad dŵr y mae'r cwmni dŵr yn ymchwilio iddo.

Pan fo Swyddfa yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu o dan gontract iddynt, mae ein cyfraniad i ymrwymiadau'r Llywodraeth mewn perthynas ag effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn gynwysedig yn y fframweithiau ehangach hynny.

# Adolygiad Ariannol

Yn ystod 2017-18 gwariodd Swyddfa Cymru £14.1 biliwn o fewn Amcangyfrifon Cyflenwi Seneddol (Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn), yn bennaf fel grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

***Perfformiad Ariannol***

Mae'r Senedd yn pleidleisio i roi cronfeydd i Adrannau ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn, ar ffurf *Prif Amcangyfrif* ar gychwyn y flwyddyn ac *Amcangyfrif Atodol Unigol* ym mis Chwefror.

***Newid mewn darpariaeth Amcangyfrifon yn ystod 2017-18***

Ar gychwyn y flwyddyn pleidleisiwyd i roi £14.323 biliwn i'r Adran yn ei Brif Amcangyfrif. Erbyn yr amcangyfrif Atodol Unigol terfynol, roedd hynny wedi codi i £14.794 biliwn, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o £470,943,000 ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru (CGC).

***Eglurhad o'r amrywiadau rhwng Amcangyfrif ac Alldro Adnoddau Net***
***Swyddfa Cymru -Adnoddau***

| Gwariant yng Nghyfyngiadau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 4,805 | 5,110 | 305 | 6 |

Gellir priodoli'r tanwariant o £305k yn erbyn yr Amcangyfrif i gostau cyfreithiol is na'r darogan a gafwyd gan swyddfa'r Cyngor Seneddol ar gyfer Bil Cymru, oedi na ellid ei osgoi o ran recriwtio staff ar gyfer swyddi newydd yn gysylltiedig â gadael yr UE a rheoli ariannol darbodus.

***Swyddfa Cymru - Cyfalaf***

| Gwariant yng Nghyfyngiadau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 73 | 120 | 47 | 39 |

Gellir priodoli'r tanwariant yn bennaf i gostau is na'r disgwyl ar gyfer gwelliannau cyfalaf yn Nhŷ Gwydyr.

### *Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| Gwariant yng Nghyfyngiadau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | Gorwariant)/ Tanwariant £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfa Gyfunol Cymru | 14,130,162 | 14,788,892 | 658,730 | 4.5 |

### *Cysoni gwariant net ar adnoddau rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon*

| | 2017-18 £000 | 2016-17 £000 |
|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net (amcangyfrifon) | 14,134,973 | 13,530,115 |
| Addasiadau i gael gwared ag eitemau nad ydynt yn rhan o'r gyllideb | | |
| Grantiau i Gronfa Gyfunol Cymru | (14,130,162) | (13,525,626) |
| Arall | | |
| **Cyfanswm Alldro Cyllideb Adnoddau** | **4,811** | **4,489** |
| Sy'n cynnwys | | |
| Cyfyngiad Gwariant Adrannol (CGA) | 4,805 | 4,513 |
| Cyfyngiad Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)* | 6 | (24) |
| | | |
| Mae addasiadau yn cynnwys | | |
| Grantiau i weinyddiaethau datganoledig – Cymru | 14,130,162 | 13,525,626 |
| Derbynebau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol yn yr OCS | | |
| **Costau Gweithredu Net (Cyfrifon)** | **14,134,973** | **13,530,115** |

* Mae AME yn gysylltiedig a chynnydd yn 2017-18 mewn darpariaeth ar gyfer costau dadfeiliad rhydd-ddaliad, ac yn 2016-17 defnyddio darpariaeth ymddeoliad cynnar Gweler Nodyn 11.

Glynne Jones
Swyddog Cyfrifyddu

25 Mehefin 2018

# 2 Yr Adroddiad Atebolrwydd

## Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

### Gweinidogion, Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion

| Gweinidogion/Cyfarwyddwyr /Uwch Swyddogion |
|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS** – Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| **Stuart Andrew AS** – Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 9 Ionawr 2018 |
| **Guto Bebb AS** – Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 9 Ionawr 2018 |
| **Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth** – Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 27 Hydref 2017 |
| **Yr Arglwydd Duncan o Springbank** – Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 27 Hydref 2017 |
| **Isobel Garner** – Aelod Bwrdd Anweithredol arweiniol (NEBM) |
| **Tom Jones** – NEBM |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr |
| **Geth Williams** – Is Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfansoddiad Chorfforaethol |
| **Robin Healey** – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi |
| **Michael Dynan–Oakley** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat |
| **Allan Ross** – Is Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu |
| **Sarah Stoney*** – Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfreithiol |

* Mae Sarah Stoney ar fenthyg o Adran Gyfreithiol y Llywodraeth (GLD). Mae'n aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Swyddfa ond nid yw'n aelod o Fwrdd yr Adran.

Roedd gan Swyddfa ddau aelod bwrdd anweithredol (NEBM) – Isobel Garner (NEBM arweiniol) a Tom Jones (NEBM). Mae manylion am holl bwyllgorau ac aelodaeth Swyddfa Cymru yn cael eu hamlinellu yn y "Datganiad Llywodraethu" (tudalen 22).

#### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Nid yw swyddfa yn delio â swm mawr o ddata sensitif neu bersonol, ond er hynny mae'n ymrwymedig i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei dal yn cael ei thrin a'i gwarchod yn briodol a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Mae asedau gwybodaeth a risgiau yn cael eu harenwi a sefydlwyd rheolyddion er mwyn rheoli eu defnydd ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn defnyddio pecyn hyfforddiant a ddarperir drwy Ddysgu'r Gwasanaeth Sifil (CSL) er mwyn hyfforddi'r holl staff yn flynyddol mewn perthynas â materion sicrwydd ansawdd a trin data.

Adroddwyd am un digwyddiad mewn perthynas â diogelwch yn ystod 2017-18. Roedd hyn yn ymwneud â cholli gliniadur a ffôn symudol. Roedd yr eitemau wedi'u hamgodio yn llawn ac nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif. Ymchwiliwyd yn llawn i'r digwyddiadau a chymerwyd camau priodol.

***Archwilio***

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol (C&AG), a benodir o dan statud ac sy'n adrodd yn ôl i'r Senedd ar yr archwiliad. Mae cydnabyddiaethau'r Archwiliwr yn cael eu datgelu yn Nodyn 3 y cyfrifon. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad ni wnaethpwyd unrhyw daliad i'r archwilwyr am waith nad oedd yn gysylltiedig ag archwilio (2016-17: £dim).

Hyd y gŵyr y swyddog Cyfrifyddu a'r Cyfarwyddwr, nid oes yna unrhyw wybodaeth berthnasol ynglŷn ag archwilio nad yw archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio ac i sefydlu bod archwilwyr Swyddfa Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 (y GRAA), mae trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Swyddfa Cymru baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n nodi'r adnoddau a dderbyniwyd, a ddelir neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaethpwyd o'r adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Swyddfa Cymru ac o'i halldro adnoddau net, sut y cymhwyswyd adnoddau, newid mewn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig â:

- Goruchwylio'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu cymhwysol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon; a
- Pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Cymru, yn cael eu nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

## Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Mae Cyfrifon y Swyddfa wedi cael eu paratoi ar sail statudol yn unol â gofynion Trysorlys EM ac maent yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Cyfrifon generig a roddir i adrannau gan Drysorlys EM o dan adran 5(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol, a benodir o dan statud ac sy'n adrodd yn ôl i'r Senedd ar yr archwiliad. Mae cydnabyddiaethau a threuliau'r Archwiliwr yn cael eu datgelu yn Nodyn 3 y cyfrifon. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad ni wnaethpwyd unrhyw daliad i'r archwilwyr am waith nad oedd yn gysylltiedig ag archwilio (2016-17: £dim).

Drwy hyn rwyf yn cadarnhau, cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol, nad oes yna wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio nad yw archwiliwr y Swyddfa yn ymwybodol ohono, a fy mod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod

yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Swyddfa hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Drwy hyn rwyf yn cadarnhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, cytbwys a dealladwy, ac fy mod yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, a'r dyfarniadau oedd eu hangen ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Swyddfa Cymru; y ffordd y mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; a sut mae'n atebol am yr hyn mae'n ei wneud. Bwriedir iddo ddarparu datganiad cynhwysfawr wedi'i deilwra o'r modd y gall y Swyddog Cyfrifyddu roi sicrwydd ynglŷn â gweithredu priodol y Swyddfa a'i stiwardiaeth o gronfeydd cyhoeddus.

***Statws a rôl Swyddfa***

Sefydlwyd yr Adran fel Swyddfa Cymru yr un pryd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Erbyn hyn fe'i gelwir yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ei brif bwrpas yw cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth hyrwyddo lles Cymru yn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod setliad datganoli Cymru yn cael ei weithredu'n hwylus. Mae hefyd yn gyfrifol am dalu'r arian a bleidleisiwyd i'w roi i Gronfa Gyfunol Cymru gan y Llywodraeth yn brydlon (Grant Bloc Cymru). Wrth ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn, ac yn unol â phob Adran Wladol arall, mae'r Swyddfa yn gyfrifol am sefydlu llywodraethiant cadarn a threfniadau rheoli risg cydnerth.

Ei Chyfarwyddwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu penodedig.

***Pwrpas y fframwaith llywodraethu***

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae'r ffordd y cyfarwyddir ac a reolir y Swyddfa yn seiliedig arnynt, a'r ffordd y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cynnwys y broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro llwyddiant ei hamcanion ac i ystyried a yw gweithgareddau'r swyddfa wedi arwain at ddeilliannau priodol a chost effeithiol. Mae'r fframwaith yn cynnwys system gydnerth o adnabod a rheoli risg.

***Fframwaith llywodraethu***

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn pennu cyfeiriad gwleidyddol i'r Swyddfa ac mae'n atebol i'r Senedd. Caiff ei gefnogi gan ddau Is Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru; un yn Nhŷ'r Cyffredin a'r llall yn Nhŷ'r Arglwyddi, a gan dîm bychan o weision sifil o dan arweiniad Cyfarwyddwr y Swyddfa.

***Bwrdd Adrannol***

Sefydlwyd y Bwrdd Adrannol ym mis Medi 2015 ac mae'n cyfarfod hyd at chwe gwaith yn ystod blwyddyn ariannol. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Cyfarwyddwr mewn cyfarfodydd pan nad yw'n ofynnol i Weinidogion fod yn bresennol. Cytunwyd y dylai Gweinidogion fynychu o leiaf dau gyfarfod bob blwyddyn.

Mae'r Bwrdd Adrannol yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol yr Adran (nodau ac amcanion) yn seiliedig ar bolisïau y penderfynir arnynt gan Weinidogion, cytuno ar y cynllun busnes a sicrhau bod gan y swyddfa'r gallu a'r capasiti i gyflawni'r cynllun busnes er mwyn bodloni anghenion presennol ac yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y tîm Gweinidogol, dau aelod bwrdd anweithredol annibynnol (NEBM); a'r Cyfarwyddwr ac Is Gyfarwyddwyr yr Adran. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol yn mynychu pob cyfarfod Bwrdd er mwyn cynghori ar faterion ariannol a llywodraethiant.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd Adrannol ym mis Mai 2017, Medi 2017, Rhagfyr 2017, Chwefror 2017 a Mawrth 2018. Yr Ysgrifennydd Gwladol gadeiriodd gyfarfod mis Chwefror, a Chyfarwyddwr y Swyddfa gadeiriodd y cyfarfodydd eraill.

Yn 2017-18 bu i'r Bwrdd adrannol adolygu a chytuno ar ddiweddariadau i a monitro cynnydd y Trosolwg Strategaeth Adrannol a'r Gofrestr Risgiau Strategol. Mae'r Trosolwg Strategol a'r Gofrestr Risgiau Strategol a ddiweddarwyd yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau, amcanion a gweithgareddau allweddol yr Adran.

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Adran gan yr Aelod Bwrdd Anweithredol arweiniol (NEBM) ym mis Mawrth 2018. Canlyniadau ei hadolygiad oedd bod y trefniadau presennol yn gweithio'n ymarferol ac nad ydynt yn achosi unrhyw risgiau o ran llywodraethu corfforaethol, ond awgrymwyd mwy o welliannau er mwyn atgyfnerthu'r drefn lywodraethu. Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys gweithio er mwyn cael cymysgedd optimaidd o gyfarfodydd Bwrdd a Gweithdai gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, gan ddatblygu mwy ar gynlluniau busnes adrannol er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau, risgiau ac adnoddau, ac adolygu'r rhaglen waith flynyddol yn erbyn ymarfer dda a Fframwaith Gweithredu'r Bwrdd.

Nododd y NEBM arweiniol y bu newid ffocws yn ystod 2017-18 mewn perthynas â sut mae'r Adran yn cyflawni'r trefniadau llywodraethu yn ymarferol oedd wedi adeiladu ar yr adolygiad yr oedd wedi ei gynnal yn 2017. Roedd hynny yn cynnwys bod gan yr Adran Fframwaith Gweithredu'r Bwrdd erbyn hyn, mae'r Cyfarwyddwr yn atgyfnerthu cyfathrebu yn yr Adran, a chynhelir gweithdy cyntaf y Bwrdd Adrannol mewn fformat newydd.

Bu i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr er mwyn trafod polisi, strategaeth a materion Adrannol. Hefyd, bu i'r Ysgrifennydd Gwladol gadeirio cyfarfodydd wythnosol gyda'r tîm Gweinidogol ac uwch reolaethol llawn a gydlynodd a thrafododd fusnes Adrannol a Gweinidogol arfaethedig.

**Mae presenoldeb ar y Bwrdd Adrannol yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddangos yn y tabl isod:**

## Bwrdd Adrannol

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd Cymwys y Fynychwyd |
|---|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS*** Cadeirydd<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru | 1 o 2 |
| ***Stuart Andrew AS†**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 9 Ionawr 2018 | 0 o 1 |
| **Guto Bebb AS†**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 9 Ionawr 2018 | 0 o 1 |
| **Yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth††**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru o 27 Hydref 2017 | 0 o 1 |
| **Yr Arglwydd Duncan o Springbank†††**<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru hyd at 27 Hydref 2017 | 0 o 1 |
| **Isobel Garner** – NEBM Arweiniol | 5 o 5 |
| **Tom Jones** – NEBM | 5 o 5 |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr | 5 o 5 |
| **Geth Williams** – Is Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfansoddiad Chorfforaethol | 5 o 5 |
| **Allan Ross** – Is Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu | 4 o 5 |
| **Robin Healey** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi | 5 o 5 |
| **Michael Dynan-Oakley** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat | 5 o 5 |

* Mae Gweinidogion yn mynychu dau gyfarfod Bwrdd bob blwyddyn.

† Ar 9 Ionawr 2018 yn dilyn aildrefnu'r Cabinet, penodwyd Stuart Andrew AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru gan gymryd lle Guto Bebb AS.

†† Penodwyd yr Arglwydd Bourne yn gyd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru yn yr Adran ar 27 Chwefror 2017, gan gymryd lle yr Arglwydd Duncan. Mae'n dal y rôl yma ar y cyd â'i rôl fel Is-ysgrifennydd Gwladol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y dechreuodd ynddi ar 8 Ionawr 2018. Cyn hynny roedd yn ei rôl yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, o 17 Gorffennaf 2016 i Ionawr 2018.

### *Adroddiadau'r Pwyllgor i'r Bwrdd Adrannol*

*Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC):* – Mae'r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr NEBM arweiniol, ac mae'n cynnwys un NEBM arall ac un aelod annibynnol arall. Mae'r aelod annibynnol wedi bod yn y swydd ers 1 flynedd. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n unol â Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio'r Trysorlys, ac mae'n cyfarfod yn chwarterol. Bu i'r Pwyllgor gynnal gwerthusiad llawn o'i effeithlonrwydd ym Mawrth 2018 gan ofyn am safbwyntiau gan archwilwyr mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Casglodd y Pwyllgor ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

Roedd rhai o'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- cofrestrau risgiau'r Adran a phrosesau llywodraethu;
- Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol;
- Cyfrifon Cronfa Benthyciad Cenedlaethol; ac
- adroddiadau Archwiliadau Mewnol ac Allanol

Roedd presenoldeb ar Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystod y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Isobel Garner** – NEBM Arweiniol, Cadeirydd | 4 of 4 |
| **Tom Jones** – NEBM | 4 of 4 |
| **Sam Hartley**[1] – Aelod Annibynnol | 3 of 4 |

**Note 1:** Sam Hartley yw Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Lloegr. Fe'i penodwyd ar y Pwyllgor ym mis Ionawr 2017.

## Pwyllgorau eraill

Mae gan y Swyddfa hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch (IaD) sydd â chylch gwaith ar gyfer:

- cynghori'r Bwrdd ar sicrhau bod y Swyddfa yn darparu amgylchedd gweithio diogel ac iach i'w staff, Gweinidogion ac ymwelwyr;
- mynd ati i reoli risgiau IaD a glustnodwyd a monitro cynnydd yn erbyn Cynllun Corfforaethol Iechyd Diogelwch Galwedigaethol; a
- gwella mwy ar berfformiad a safonau IaD, ac ymdrechu i fwy na bodloni safonau statudol, codau ymarfer, rheoliadau a gofynion cyfreithiol cymwys.

Bu i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a gadeiriwyd gan Bennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, gyfarfod unwaith yn ystod 2017-18. Bu iddo drafod nifer o faterion yn cynnwys ystadegau damweiniau yn y gwaith a hyfforddiant staff fel wardeiniaid tân a swyddogion cymorth cyntaf.

## Rôl y Swyddog Cyfrifyddu

Cyfarwyddwr y Swyddfa yw ei Swyddog Cyfrifyddu (SC). Yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd iddo yn ei lythyr penodi, ac fel a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus, mae'n gyfrifol am lywodraethu'r Swyddfa.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu fod yn bersonol gyfrifo am:-

- reoleidd-dra a phriodoldeb, yn cynnwys ceisio cymeradwyaeth Trysorlys EM ar gyfer unrhyw wariant y tu hwnt i ddirprwyaethau arferol;
- fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, parchu cyllidebau cytunedig ac osgoi ymrwymiadau hirdymor anfforddiadwy;
- asesiadau gwerth am arian;
- bod yn atebol i'r Senedd drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC).

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod yr Adran yn gweithredu yn effeithiol, yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac yn arddangos cywirdeb o safon uchel.

Mae'r Swyddfa yn amcanu at:

## Llywodraethiant

- gael strwythur llywodraethu sy'n trosglwyddo, dirprwyo, gweithredu a gorfodi penderfyniadau;
- cael rheolyddion mewnol dibynadwy er mwyn diogelu, sianelu a chofnodi'r defnydd o adnoddau yn ôl y bwriad;
- gweithredu'n briodol gan ystyried yr angen am weithredu busnes cyhoeddus yn briodol;
- trin ei chyflenwyr a chymheiriaid busnes yn deg ac onest; a
- darparu adroddiadau prydlon, tryloyw a realistig o'i busnes.

## Gwneud penderfyniadau

- cefnogi ei Gweinidogion â chyngor clir, rhesymol, prydlon a diduedd;
- sicrhau bod ei holl benderfyniadau yn unol â strategaeth, amcanion a nodau'r sefydliad fel y nodwyd hynny gan Weinidogion a/neu ddeddfwriaeth;
- bodloni gofynion y Trysorlys ynglŷn â chyfyngiadau defnyddio adnoddau cyhoeddus;
- rheoli ei staff yn deg, gyda pholisïau cynhwysol a ddyluniwyd i hyrwyddo ac integreiddio amrywiaeth; a
- chyfathrebu ei phenderfyniadau'n agored a thryloyw.

## Rheoli ariannol

- sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd a phriodol;
- defnyddio ei hadnoddau yn effeithlon, economaidd ac effeithiol, gan osgoi gwastraff ac afradlonedd;
- cynnal prosesau gwerthuso caffael a phrosiectau yn wrthrychol a theg, gan geisio gwerth da i'r cyhoedd a'r sector cyfan;
- defnyddio systemau gwybodaeth rheoleiddiol er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian a safon y ddarpariaeth a gwneud addasiadau'n brydlon yn seiliedig ar hynny;
- osgoi gorddiffinio manylion a phennu costau cydymffurfio diangen, naill ai ar ei staff ei hun neu ei chyflenwyr a rhanddeiliaid;
- cael trefniadau ymarferol wedi'u dogfennu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill; a
- defnyddio archwiliad allanol er mwyn gwella ei rheolaeth ariannol, rheolyddion mewnol a pherfformiad.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Swyddfa wedi ei rhannu'n bedair adran er mwyn cyflawni ei swyddogaethau:

1. Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol
2. Swyddfa Breifat
3. Y Wasg a Chyfathrebu
4. Polisi

Mae pob un o'r rhain yn cael eu harwain gan uwch aelod staff sy'n adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr. Bu i gyllidebau ffurfiol gael eu dirprwyo gan y Cyfarwyddwr i bob Dirprwy Gyfarwyddwr yn eu rolau fel penaethiaid adran.

Roedd cyllidebau adrannol yn cael eu monitro gan yr uwch dîm ac adolygwyd a thrafodwyd adroddiadau ariannol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Roedd yr uwch dîm rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn goruchwylio a chydlynu busnes o ddydd i ddydd, materion rheolaethol, a materion cyllidebol.

Mae'r Swyddfa yn derbyn ei wasanaethau cyfreithiol gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth (GLD). Mae tîm Ymgynghorwyr Cyfreithiol Swyddfa Cymru (WOLA) yn cael eu cyflogi gan GLD ac roedd wedi ei gyd-leoli â staff yr Adran yn Nhŷ Gwydyr a Caspian Point. Sefydlwyd rôl Dirprwy Gyfarwyddwr WOLA (DD Cyfreithiol) yn GLD ar 24 Hydref 2016. Mae'n aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Swyddfa ond nid yw'n aelod o Fwrdd yr Adran. Mae'r DD Cyfreithiol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel ymgynghorydd yn unig.

## Archwilio Mewnol

Roedd adolygiadau Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rheoli risg, Gwersi a Ddysgwyd o Fil Cymru, Rheolwyr Llinell, Adnoddau Dynol (AD), Trafodion a Chyflogres.

Bu i Archwilio Mewnol ganfod lefel dda o reolaeth ac ni chanfu unrhyw broblemau rheoli arwyddocaol yn eu hadolygiadau, ac maent yn gallu rhoi lefel gymedrol o sicrwydd bod fframwaith risg, rholi a llywodraethu cyffredinol yr Adran yn ddigonol er mwyn gallu gwireddu ei hamcanion a bod prif risgiau i'r Adran yn cael eu rheoli'n effeithiol.

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Bu i'r Swyddfa roi sylw llawn i ganllawiau Trysorlys EM, Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog (Gorffennaf 2011) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau er mwyn adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol. Fodd bynnag, gwnaethpwyd hynny ar raddfa oedd yn gymesur â'i maint, cyllideb a'i swyddogaeth (sef darparu cefnogaeth a chyngor ar bolisi i Weinidogion yn hytrach na darparu rhaglenni neu wasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd). Mae'r meysydd nad yw'r Adran ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n lawn â'r canllawiau wedi'u cyfyngu i:

- Niferoedd yr NEBMau. Ar ôl i'r Cyfarwyddwr, y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg roi sylw dyledus i'r mater, ac yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Archwilio Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Allanol, penderfynodd yr Adran i beidio â chynyddu nifer ei NEBMau. Teimlwyd fod y nifer presennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 45 o staff). Bu i'r ddau NEBM yn ystod 2017-18 gynnig sgiliau a phrofiad eithriadol o ddefnyddiol sy'n arbennig o berthnasol i'r Swyddfa. Mae gan yr NEBM arweiniol yrfa portffolio o wella gwasanaethau cyhoeddus ac ar hyn o bryd mae'n cadeirio Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Cyn ei gyrfa anweithredol roedd yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru. Mae'r ail NEBM yn ffermwr Cymreig ac ar hyn o bryd mae'n gwasanaethu fel un o aelodau'r DU o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop , ac mae hefyd yn Is-lywydd Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod, penodwyd swyddog o Gomisiwn Ffiniau ar gyfer Lloegr fel aelod annibynnol.

- Nid yw aelodaeth o'r Bwrdd Adrannol yn cynnwys unigolyn sydd yn weithiwr ariannol proffesiynol cymwys. Oherwydd ei maint, mae gan y Swyddfa un gweithiwr proffesiynol ariannol cymwys, sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd mewn rôl gynghori.

## Canfod a rheoli risg

Mae system rheolaeth fewnol y Swyddfa wedi ei dylunio i ganfod risg busnes a'i reoli ar lefel resymol. Mae'n seiliedig ar broses barhaus a ddyluniwyd i ganfod a blaenoriaethu risgiau sy'n wynebu'r Adran mewn perthynas â chyflawni ei hamcanion, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith debygol, a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol ac yn economaidd.

Mae cydnerthedd y system hon yn parhau i gael ei arddangos yn y ffordd mae'r Adran yn rheoli ei risgiau strategol allweddol. Yn 2017-18, mae'r rhain wedi cynnwys y risg o fethu â chefnogi'r gwaith mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), a'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch yr ymadael. Er bod hynny yn risg i Lywodraeth y DU yn ehangach, rydym wedi sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â gadael yr UE. Mae'r Swyddfa wedi ymgysylltu'n llawn â gwaith mewn perthynas â gadael, a hynny dan arweiniad yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (DExEU) a Swyddfa'r Cabinet (CO), ac mae uwch swyddogion yn mynychu pob cyfarfod yn Whitehall sy'n gysylltiedig â gadael yr UE. Mae ein Gweinidogion wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yng Nghymru ynghylch Ymadael ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn mynychu cyfarfodydd dwyochrog rhwng Gweinidogion y DU a'r Prif Weinidog ac yn adolygu'r broses. Mae'r Swyddfa wedi hwyluso cyfarfodydd dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru (LlC) mewn perthynas â materion polisi allweddol ynghylch ymadael, ac wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y CO, DExEU ac Adrannau eraill y Llywodraeth gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad ynghylch Bil (Gadael) yr UE, gan gyfrannu i ddiwygiadau pan fo'n ofynnol.

Y prif risg gweithredol a ganfuwyd oedd na fyddai'r Swyddfa yn gallu darparu digon o adnoddau er mwyn cyflawni ymrwymiadau newydd y Llywodraeth i Gymru. Mae'r Adran yn lliniaru'r risg hon drwy ddarparu hyfforddiant a chynllunio olyniaeth i staff presennol, a recriwtio staff newydd sydd â'r wybodaeth, profiad a'r sgiliau priodol er mwyn gallu ymgymryd â'r gwaith yn ddiymdroi. Erbyn hyn mae lefelau uchel o drosiant staff wedi sefydlogi, ac mae'r Adran yn adolygu ei gweithdrefnau recriwtio er mwyn denu ystod ehangach o ymgeiswyr.

## Capasiti i ddelio â risg

Bu i risgiau gael eu canfod a'u mynegi ar lefel strategol a gweithredol gan y Bwrdd Adrannol, ac ar lefel waith gan dimau'r pedair adran. Roedd cofrestrau risg yr adrannau yn tanategu'r Gofrestr Risgiau Adrannol trosfwaol ac yn bwydo iddi, ac roedd honno'n cael ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Adrannol. Bu i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) graffu ar y ffordd o ddelio â risgiau allweddol yn ei gyfarfodydd chwarterol, gan edrych yn fanylach ar risgiau unigol dethol a sut y'u rheolwyd. Hefyd, bu i'r Adran gynhyrchu Datganiad Chwant Risg a gymeradwywyd gan yr ARAC.

## Fframwaith risg a rheolaeth

Roedd gan y Swyddfa Fframwaith a Strategaeth Polisi Rheoli Risg a gymeradwywyd gan y Bwrdd Adrannol, a hysbyswyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yr elfennau allweddol oedd:

- proses ffurfiol o adnabod, gwerthuso, rheoli ac adrodd am risg;
- system o ddadansoddi ac adrodd sy'n arenwi risgiau mewn perthynas ag amcanion, effaith a thebygolrwydd risg, camau lliniaru presennol a chynlluniedig a pherchnogion risg unigol;
- rhaglen ffurfiol yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg; a

- hyfforddiant ymwybyddiaeth o reoli risg.

Cefnogwyd effeithlonrwydd y trefniadau rheoli risg gan waith archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith reoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Roedd yr holl reolyddion allweddol, a glustnodwyd o ganlyniad i asesu risgiau busnes allweddol a'r meysydd ariannol allweddol canlynol, wedi eu sefydlu ac wedi eu cymhwyso. Yn benodol, roedd y rhain yn rhoi sicrwydd sylweddol:

- bod gwariant/incwm yn cael ei gofnodi a'i wario a'i dderbyn yn briodol gan roi sylw i briodoldeb a rheoleidd-dra;
- bod gwariant/incwm a wariwyd ac a dderbyniwyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, yn cynnwys y rhai oedd yn darparu'r fframwaith cyfreithiol yr oedd y Swyddfa yn cynnal ei gweithgareddau ynddo;
- bod gwariant yn cael ei ddosbarthu'n briodol a bod trosglwyddiadau gwariant rhwng dosbarthiadau gwariant yn cael eu gwneud yn unol â'r Llawlyfr Ariannol;
- na thorrwyd awdurdod ariannol dirprwyedig;
- bod cyllidebau yn cael eu monitro'n rheolaidd, bod gwir wariant yn cael ei gymharu â'r rhagolygon, a bod amrywiadau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd Adrannol;
- bod rheolyddion wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau'r Swyddfa yn cael eu diogelu yn erbyn defnydd neu waredu anawdurdodedig;
- bod gweithdrefnau rheoli wedi'u sefydlu er mwyn gwarchod yn erbyn twyll;
- bod asedau gwybodaeth yn cael eu monitro a risgiau yn cael eu hasesu a'u cofnodi'n briodol, a'u bod yn destun adolygiad ansawdd ac yr adroddir arnynt (gweler yr adran sicrwydd gwybodaeth isod);
- bod gweithdrefnau rheoli wedi'u sefydlu ar gyfer yr Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb am Wybodaeth er mwyn gwarchod rhag bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth; a
- na thorrwyd y polisi mewn perthynas â lletygarwch a rhoddion.

***Diogelwch a diogelwch gwybodaeth***

Mae hyn yn cael ei drafod yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Gweler tudalen 22.

## Risg a Sicrwydd Gwybodaeth

***Asedau gwybodaeth***

Nid yw'r Swyddfa yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cynnal cronfeydd data mawr o ddata personol. Ychydig o ddata personol a ddelir ar ffurf

cofnodion personél a chyllid, a chyfathrebiadau gan aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau Seneddol (ASau), Aelodau'r Cynulliad (ACau) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a ddelir gan yr Adran yn cynnwys papurau corfforaethol a pholisi, a phapurau Pwyllgor y Cabinet.

***Risgiau a'r dull o'u Rheoli***

Mae'r Swyddfa wedi arenwi y risgiau penodol canlynol i wybodaeth:

1. colli gwybodaeth, yn arbennig pan fo staff yn teithio;

2. cyfaddawdu gwybodaeth drwy fynediad anawdurdodedig;

3. colli neu lygru gwybodaeth o ganlyniad i fethiant yn y system dechnegol; a

4. cholli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad.

O ystyried y wybodaeth sensitif gyfyngedig a ddelir, nid yw'r Swyddfa yn wynebu'r lefel o risg sy'n golygu bod angen strategaethau rheoli sylweddol neu arbennig.

***Rheoli risgiau***

Risg 1: Colli gwybodaeth, yn arbennig pan fo staff yn teithio:

- mae staff wedi derbyn canllawiau ar drin gwybodaeth sy'n benodol yn perthyn i'r Adran, ac sy'n nodi eu cyfrifoldebau.

- mae staff yn cael eu hatgoffa'n gyfnodol am y rheolau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth wrth deithio;

- mae gan yr Adran bolisi desg glir yn ein dwy swyddfa sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei storio'n briodol; a

- sicrhawyd bod staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau adrodd am golli gwybodaeth sensitif ac eitemau megis ffonau clyfar.

Risg 2: Cyfaddawdu gwybodaeth drwy fynediad anawdurdodedig:

- mae system rheoli mynediad yn cael ei chynnal mewn perthynas â rheoli cofnodion sy'n cyfyngu defnyddwyr i ffeiliau penodol yn unig. Mae mynediad yn cael ei adolygu'n gyfnodol; a

- mae ffeiliau AD yn cael eu cloi'n ddiogel mewn cabinetau ac mewn ystafell o dan glo.

Risg 3: Colli neu lygru gwybodaeth o ganlyniad i fethiant yn y system dechnegol:

- Rydym wedi cael sicrwydd gan gyflenwyr TG MoJ, o dan gytundeb lefel gwasanaeth, bod gwybodaeth yn ddiogel, bod copïau wrth gefn o ddata yn cael

eu gwneud yn rheolaidd ac y gellir eu defnyddio mewn camau adfer os bydd angen; a bod ffeiliau a data hen a diwerth yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

Risg 4: Colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad:

- mae'n orfodol i'r holl staff gloi pob dogfen gyfrinachol mewn cabinetau diogel. Mae gwiriadau yn cael eu cynnal yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod pob cabinet wedi'u cloi; ac

- mae'r polisi desg glir wedi ei ddylunio i atal dogfennau rhag cael eu gadael yn anniogel, ac mae nifer o hap wiriadau wedi dangos y cedwir at y polisi hwnnw.

***Deilliannau yn ystod 2017-18***

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2017-18.

## Adroddiad grynodol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Yn seiliedig ar ei waith ar gyfer y flwyddyn oedd yn diweddu ar Dydd Sadwrn, 31 Mawrth 2018, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn gallu darparu lefel resymol o sicrwydd ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer y Swyddfa, y trefniadau rheoli ariannol sydd ar waith, ac ar y sicrwydd a roddir i'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg a threfniadau rheoli sydd wedi bod yn weithredol yn yr Adran drwyddi draw.

## Asesiad o'r system reoli mewnol

Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system o reoli mewnol yn y Swyddfa yn ddigonol ar gyfer cyflawni amcanion yr Adran. Rhoddir y sicrwydd hwn oherwydd, pan ganfuwyd risg posibl, naill ai bod camau wedi eu cymryd i ddelio â'r risg neu bod natur y risg wedi cael ei ddeall a'i dderbyn yn gyfan gwbl.

# Adroddiad ar Gydnabyddiaethau Ariannol

## Adroddiad Taliadau

Yn unol â gofynion Atodlen 7A Deddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd) dim ond rhai rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaethau Ariannol sydd wedi bod yn destun archwiliad allanol llawn.

Mae'r adrannau canlynol yn destun archwiliad: cydnabyddiaeth gweinidogion, cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd, lluosrifau cyflog, ffioedd a dalwyd i Aelodau Bwrdd Anweithredol, pensiynau gweinidogion, buddion pensiwn, buddion pensiwn Aelodau Bwrdd, digolledu am golli swyddfa, costau staff, adroddiadau ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill, a rhif cyfartalog yr unigolion a gyflogir.

### Polisi Cydnabyddiaethau Ariannol

Mae cydnabyddiaethau uwch weision sifil yn cael eu pennu gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion

Mae'r Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o dro i dro ar gyflog a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; lwfansau Arglwyddi, cyflog, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y mae eu cyflogau yn cael eu pennu gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion ac Eraill 1975.

Wrth benderfynu ar ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried yr ystyriaethau canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sydd â'r gallu a'r cymwysterau priodol er mwyn cyflawni eu gwahanol gyfrifoldebau;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur ac effeithiau hynny ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwell gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys yr angen i Adrannau gyrraedd targedau allbwn cyhoeddus mewn perthynas â darparu gwasanaethau Adrannol;
- y cyllid sydd ar gael i Adrannau fel y nodir hynny yng nghyfyngiadau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth mae'n ei derbyn ynglŷn ag ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Ceir mwy o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

## Cydnabyddiaethau ariannol aelodau bwrdd ac uwch weision sifil

Nid yw'r Swyddfa Cymru yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff naill ai'n perthyn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder nau ar fenthyg o Adrannau eraill y Llywodraeth. Mae cyflogau ar sail perfformiad ar wahân Uwch Weision Sifil yn yr Adran yn cael eu pennu gan Bwyllgor Cydnabyddiaethau Ariannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae cyflogau Uwch Weision Sifil yn cael eu pennu yn unol â pholisi cyflogau Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) Swyddfa'r Cabinet.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn ei gwneud y ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn seiliedig ar deilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn nodi'r amgylchiadau pan fo penodiadau'n gallu cael eu gwneud fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae'r swyddogion sy'n gynwysedig yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi penagored. Byddai diddymu swyddi yn gynnar, ac eithrio yn achos camymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn ennill iawndal fel y nodir hynny yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir mwy o wybodaeth am waith y Comisiwn Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

## Cyflogau a hawliau pensiwn Gweinidogion

Mae cyflogau, buddion mewn nwyddau trethadwy a hawliau pensiwn Gweinidogion yn cael eu dangos yn y tablau canlynol. Mae ffigyrau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan y Swyddfa, tra bod ffigyrau cyfatebol ar gyfer blwyddyn gyfan yn cael eu cyfrif heb lwfansau, bonwsau a thaliadau ex gratia.

Yn achos Gweinidogion yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'r Adrannau ond yn talu am gostau'r cydnabyddiaethau Gweinidogol ychwanegol; mae'r cyflog am eu gwasanaethau fel AS (£76,011 o 1 Ebrill 2017) a lwfansau amrywiol y mae ganddynt hawl iddynt yn cael eu talu'n ganolog. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer Gweinidogion yn Nhŷ'r Arglwyddi yn wahanol oherwydd nad ydynt yn derbyn cyflog ond cydnabyddiaeth ychwanegol, na ellir ei ystyried ar wahân i'w cyflogau Gweinidogol. Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth, yn ogystal â'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, yn cael eu talu gan yr Adran, ac felly fe'u dangosir yn llawn yn y ffigyrau isod.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw nwyddau a roddwyd gan yr Adran ac y mae Cyllid a Thollau EM yn ei ystyried fel enillion trethadwy. Ni fu i unrhyw Weinidog yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru dderbyn buddion mewn nwyddau yn 2017-18 na 2016-17.

## *Cydnabyddiaethau (cyflog, a phensiynau)*

| Cyfanswm unigol y talidau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Cyflog (£) | | Buddion mewn nwyddau (hyd y £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[1] | | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) | |
| | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 |
| Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Yr Ysgrifennydd Gwladol | 67,505 | 67,505 | Dim | Dim | 19,000 | 17,000 | 87,000 | 85,000 |
| Yr Arglwydd Stuart Andrew, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 9 Ionawr 2018)* | Dim | Dg | Dim | Dim | Dim | Dg | Dim | Dg |
| Guto Bebb, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 9 Ionawr 2018)* | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| Yr Arglwydd Bourne o Aberyswyth, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 27 Hydref 2017)** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| Yr Arglwydd Duncan o Springbank, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Mehefin 2017 i 27 Hydref 2017)*** | Dg | Dg | Dg | Dg | Dg | Dg | Dg | Dg |

**Nodiadau'n gysylltiedig â'r tabl:**

1. Mae gwerth y buddion pensiwn cronedig yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo fel (y cynnydd real mewn pensiwn wedi'i luosi â 20) llai (y cyfraniadau a wnaethpwyd gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

* Ar 9 Ionawr 2018 yn dilyn aildrefnu'r Cabinet, penodwyd Stuart Andrew AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru gan gymryd lle Guto Bebb AS.

** Penodwyd yr Arglwydd Bourne yn gyd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru yn yr Adran ar 27 Chwefror 2017, gan gymryd lle yr Arglwydd Duncan. Mae'n dal y rôl yma ar y cyd â'i rôl fel Is-ysgrifennydd Gwladol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y dechreuodd ynddi ar 8 Ionawr 2018. Cyn hynny roedd yn ei rôl yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, o 17 Gorffennaf 2016 i Ionawr 2018.

*** Ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU ym Mehefin 2017, penodwyd yr Arglwydd Duncan yn gyd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru . Roedd yn dal ei rôl ar y cyd â Swyddfeydd yr Alban. Ar 27 Hydref 2017 disodlwyd yr Arglwydd Duncan gan yr Arglwydd Bourne fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae costau cydnabyddiaethau y ddau Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn cael eu talu gan y gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi yn ôl eu trefn.

| Buddion Pensiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Pensiwn Cronedig yn 65 oed ar 31 Mawrth 2018 £000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn pan yn 65 oed £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018 £000 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2017 £000 | Gwir gynnydd/ gostyngiad mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000 £000 |
| Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Yr Ysgrifennydd Gwladol | 3347 | 0-2.5 | 37 | 22 | 7 |
| Yr Arglwydd Stuart Andrew, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 9 Ionawr 2018)* | Dim | Dim | Dim | Dg | Dim |
| Yr Guto Bebb, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (hyd at 9 Ionawr 2018)* | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| Yr Arglwydd Bourne o Aberyswyth, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 27 Hydref 2017)** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |
| Yr Arglwydd Duncan o Springbank, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (o 7 Mehefin 2017 i 27 Hydref 2017)*** | Dg | Dg | Dg | Dg | Dg |

Nodiadau'n gysylltiedig â'r tabl:

* Ar 9 Ionawr 2018 yn dilyn aildrefnu'r Cabinet, penodwyd Stuart Andrew AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru gan gymryd lle Guto Bebb AS.

** Penodwyd yr Arglwydd Bourne yn gyd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru yn yr Adran ar 27 Chwefror 2017, gan gymryd lle yr Arglwydd Duncan. Mae'n dal y rôl yma ar y cyd â'i rôl fel Is-ysgrifennydd Gwladol yn y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y dechreuodd ynddi ar 8 Ionawr 2018. Cyn hynny roedd yn ei rôl yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, o 17 Gorffennaf 2016 i Ionawr 2018.

*** Ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU ym Mehefin 2017, penodwyd yr Arglwydd Duncan yn gyd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru . Roedd yn dal ei rôl ar y cyd â Swyddfeydd yr Alban. Ar 27 Hydref 2017 disodlwyd yr Arglwydd Duncan gan yr Arglwydd Bourne fel Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Mae Ddim yn berthnasol yn golygu nad oedd gwybodaeth flaenorol wedi ei chyhoeddi.

## Pensiynau Gweinidogol

Mae buddion pensiynau ar gyfer Gweinidogion yn cael eu darparu gan Gronfa Pensiwn Cyfraniadau Seneddol (PCPF). Mae'r cynllun yn un statudol, a nodir y rheolau yng Nghynllun Pensiynau Gweinidogion etc. 2015, sydd ar gael yn:

http://qna.files.parliament.uk/ws-attachments/170890/original/PCPF%20MINISTERIAL%20SCHEME%20FINAL%20RULES.doc.

Gall y Gweinidogion hynny sydd yn Aelodau Seneddol hefyd gronni pensiwn ASau o dan y PCPF (nid yw'r manylion hynny yn yr adroddiad hwn). Cyflwynwyd cynllun pensiwn ASau newydd o fis Mai 2015, er bod gan aelodau oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2013 warchodaeth pontio sy'n eu caniatáu i aros yn y cynllun pensiwn cyflog terfynol blaenorol.

Mae buddion Gweinidogion yn daladwy o oedran pensiwn y Wladwriaeth o dan gynllun 2015. Mae pensiynau yn cael eu hail werthuso yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu Pensiynau cyn ac ar ôl ymddeol. Y gyfradd gyfraniadau o Fai 2015 yw 11.1% a'r gyfradd groniadol yw 1.775% o enillion pensiynadwy.

Mae'r ffigwr a ddangosir ar gyfer gwerth pensiwn yn cynnwys y cyfanswm pensiwn sy'n daladwy i'r aelod o dan y cynlluniau pensiwn Gweinidogol cyn ac ar ôl 2015.

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Dyma yw gwerth cyfalafiedig, a aseswyd gan actiwarïaid, buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg penodol. Y buddion a werthusir yw buddion croniadol yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol y priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion pensiwn y mae wedi eu crynodi yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu crynodi o ganlyniad i gyfanswm eu gwasanaeth Gweinidogol, ac nid eu swydd bresennol fel Gweinidog yn unig. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiedig) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwir neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes sydd efallai yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn gwerth CETV

Dyma'r elfen o gynnydd mewn pensiwn croniadol a ariannir gan y Trysorlys. Nid yw'n cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant a chyfraniadau a delir gan y Gweinidog. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio ffactorau gwerthuso'r farchnad gyffredin ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Cyflog a hawliau pensiwn Uwch Reolwyr

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros; tâl neu fonwsau yn seiliedig ar berfformiad; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain eu lwfansau Llundain; lwfansau

recriwtio neu gadw; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall sy'n destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau croniadol a wnaed gan y Swyddfa ac a gofnodwyd yn y cyfrifon yma.

Mae ffigyrau cyflog yn cynnwys yr holl lwfansau sy'n daladwy gan yr Adran, tra bod ffigyrau cyfatebol ar gyfer blwyddyn gyfan yn cael eu cyfrif heb lwfansau, bonwsau thaliadau ex gratia. Mae bonwsau yn seiliedig ar lefel perfformiad a gyrhaeddwyd, ac fe'i rhoddir fel rhan o'r broses werthuso. Mae'r bonwsau a gofnodir yn ystod 2017-18 yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2016-17 ac mae'r bonwsau cymharol a gofnodir ar gyfer 2016-17 yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod 2015-16.

Bu i'r Uwch Reolwyr gael cefnogaeth y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol sy'n mynychu pob cyfarfod y Bwrdd Adrannol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae cyflogau, bonwsau, buddion mewn nwyddau trethadwy a hawliau pensiwn Uwch Reolwyr yn cael eu dangos yn y tablau canlynol.

| Ffigwr cyfanswm unigol cydnabyddiaethau ariannol | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog (£000) | | Taliadau bonws (£000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (£000) | | Cyfanswm (£000) | |
| | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 |
| Glynne Jones Cyfarwyddwyr | 85-90 | 85-90 | 10-15 | dim | dim | dim | 22,000 | 35,000 | 120-125 | 120-125 |
| Geth Williams Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfansoddiad Chorfforaethol | 70-75 | 65-70 | 5-10 | dim | dim | dim | 18,000 | 14,000 | 95-100 | 80-85 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu (hyd at 9 Mawrth 2018) † | 70-75 | 75-80 | dim | dim | dim | dim | 22,000 | 27,000 | 95-100 | 100-105 |
| Robin Healey – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi†† | 65-70 | 65-70 | dim | dim | dim | dim | 22,000 | 47,000 | 85-90 | 115-120 |
| Michael Dynan-Oakley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 20 Chwefror 2017††† | 70-75 | 5-10 | dim | dim | dim | dim | 54,000 | n/a | 120-125 | dg |
| Kate Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat hyd at 31 Awst 2016†††† | n/a | 30-35 | dg | dim | n/a | dim | dg | 14,000 | dg | 45-50 |

Nodiadau'n gysylltiedig â'r tabl:

† Gadawodd Allan Ross yr Adran ar 9 Mawrth 2018. Ei chyflog llawn amser cyfatebol yn 2017-18 oedd tua £75k i £80k.

†† Mae Robin Healey ar fenthyg o'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (asiantaeth weithredol Adran yr Amgylchedd a materion Gwledig).

††† Mae Michael Dynan-Oakley ar fenthyg o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat ar 20 Chwefror 2017. Roedd ei gostau cyflog o 20 Chwefror 2017 i 31 Mawrth 2017 yn dal i gael eu talu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac felly ei gyflog llawn amser cyfatebol yn 2016-17 oedd tua £75k i £80k.

†††† Penodwyd Kate Davies yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Y Swyddfa Breifat ar 2 Gorffennaf 2015 a gadawodd yr Adran ar 31ain Awst 2016. Ei chyflog llawn amser cyfatebol yn 2016-17 oedd tua £75k i £80k.

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Cydnabyddiaethau | Cyflog heb fonwsau *yn cynnwys lwfansau (£000) | | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 | 2017-18 | 2016-17 |
| Isobel Garner – Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | 10-15 | 10 -15 | Dim | Dim | 10-15 | 10 -15 |
| Tom Jones, Cyfarwyddwyr Anweithredol | 5-10 | 5-10 | Dim | Dim | 5-10 | 5-10 |

## Buddion Pensiwn

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronedig a phensiwn lwmp swm cysylltiedig oedran ar 31 Mawrth 2017 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a lwmp swm cysylltiedig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2017 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2017 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2016 | Gwir gynnydd/ gostyngiad mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Glynne Jones, Cyfarwyddwyr | 30-35 plus a lump sum of 85-90 | 0-2.5 plus a lump sum of 0 | 608 | 563 | 7 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfansoddiad Chorfforaethol | 20-25 a thaliad unswm o 60-65 | 0-2.5 a thaliad unswm o 0 | 444 | 408 | 6 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Wasg a Chyfathrebu (hyd at 9 Mawrth 2018) † | 15-20 a thaliad unswm o 35-40 | 0-2.5 a thaliad unswm o 0 | 223 | 211 | 6 |
| Robin Healey – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi†† | 15-20 a thaliad unswm o 35-40 | 0-2.5 a thaliad unswm o 0 | 224 | 202 | 6 |
| Michael Dynan-Oakley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat o 20 Chwefror 2017††† | 30-35 a thaliad unswm o 75-80 | 2.5-5 a thaliad unswm o 2.5-5 | 550 | 482 | 38 |

Nodiadau'n gysylltiedig â'r tabl:

† Gadawodd Allan Ross yr Adran ar 9 Mawrth 2018. Ei chyflog llawn amser cyfatebol yn 2017-18 oedd tua £75k i £80k.

†† Mae Robin Healey ar fenthyg o'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (asiantaeth weithredol Adran yr Amgylchedd a materion Gwledig).

††† Mae Michael Dynan-Oakley ar fenthyg o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat ar 20 Chwefror 2017. Roedd ei gostau cyflog o 20 Chwefror 2017 i 31 Mawrth 2017 yn dal i gael eu talu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac felly ei gyflog llawn amser cyfatebol yn 2016-17 oedd tua £75k i £80k.

## Pensiynau Gwasanaeth Sifil

Mae'r buddion pensiwn yn cael eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha,** sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn Gwladol yr aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw bu i'r holl weision sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai oedd eisoes yn y gwasanaeth ymuno ag **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion yn seiliedig ar gyflog terfynol (**clasurol, premiwm neu glasurol plws**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion yn seiliedig ar yrfa gyflawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae costau buddion yn cael ei dalu gan arian a bleidleisir gan y senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos ac alpha** yn cael eu codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiwn. Roedd aelodau presennol PCSPS oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 y symud i **alpha** rhyw ben rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion yr holl aelodau sy'n symud i **alpha** yn cael eu 'bancio', ac bydd y rhai sydd a buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigyrau pensiwn a roddir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn **PCSPS** neu **alpha** – fel bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion mewn **PCSPS** ac **alpha**, mae'r ffigwr a roddir yn werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2022 ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pryniant arian' gyda chyfraniadau cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio o rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer **aelodau clasurol, premiwm, clasurol plws, nuvos ac alpha** Mae buddion **clasurol** yn crynodi ar gyfradd o 1/80 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae lwmp swm sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeoliad. Mae buddion **premiwm** yn crynodi ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **clasurol**, ni cheir lwmp swm awtomatig, ac mae **clasurol plws** yn ei hanfod yn gyfuniad o fuddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 a gyfrifir yn fras fel yn achos clasurol, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 a gyfrifir fel yn achos **premiwm**. Yn **nuvos** mae aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael credyd o 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, a bydd y pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiwn. Mae buddion yn **alpha** yn cynyddu mewn ffordd debyg i **nuvos**, ac eithrio bod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio pensiwn (mudo) am lwmp swm hyd at y cyfyngiadau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid

oes raid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol hyd at 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% yn ychwanegol o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am gostau sicrwydd buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth wrth wasanaethu ac ymddeoliad oherwydd gwaeledd).

Y pensiwn cronedig a roddir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan mae'n cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio a bod yn aelod o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn. 60 yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau o **clasurol, premiwm a clasurol plws**, 65 ar gyfer aelodau o **nuvos**, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn Gwladol ar gyfer aelodau o **alpha**. (Mae'r ffigyrau pensiwn a roddir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd mewn PCSPS neu **alpha** – fel bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion mewn PCSPS ac **alpha**, mae'r ffigwr a roddir yn werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gall rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

I gael mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafiedig, a aseswyd gan actiwarïaid, buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg penodol. Y buddion a werthusir yw buddion croniadol yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol y priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi eu crynodi yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu crynodi o ganlyniad i gyfanswm aelodaeth gyda'r cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn uwch swydd sy'n destun datgeliad.

Mae'r ffigyrau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol y telir amdanynt eu hunain. Mae CETV yn cael eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiedig) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwir neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes sydd efallai yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn gwerth CETV

Mae hyn yn adlewyrchu y cynnydd mewn CETV a ariannir gan y cyflogwr. Nid yw hynny'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau gwerthuso'r farchnad gyffredin ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

## Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaethau'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad â chanolrif cydnabyddiaethau gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth fandog y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y Swyddfa yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18 oedd £85-£90k (2016-17 £85-£90k). Roedd hyn yn 2.8 gwaith cymaint (2016-17 2.8 gwaith cymaint) â chanolrif cydnabyddiaethau'r gweithlu, oedd yn £31,988 (2016-17, £31,610).

Yn ystod 2017-18 ni dderbyniodd unrhyw gyflogai (2016-17 dim) gydnabyddiaeth oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaethau yn amrywio o £8,300 i £88,000 (2015-16, £8,300 i £87,000).

Mae cyfanswm cydnabyddiaethau yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr, a gwerth cyfatebol trosglwyddo pensiynau mewn arian.

## Digolledu am golli swydd

Ni fu i'r un aelod staff adael y Swyddfa o dan delerau Ymadael Gwirfoddol yn 2017-18 neu 2016-17.

***Gweinidogion***

Ni fu i'r un Gweinidog adael y Swyddfa o dan delerau diswyddo yn 2017-18 neu 2016-17.

# Adroddiad Staff

## Costau Staff

Mae gwariant y Swyddfa ar staff yn ystod 2017-18 yn cael ei ddangos yn y tabl isod:

| | | | | | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhol a Secondeion I mewn | Eraill | Gweindogion | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfolgau wythnosol a misol | 2,084 | 111 | 68 | 133 | 2,396 | 2,361 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 184 | - | 9 | 16 | 209 | 171 |
| Costau penswim eraill | 336 | - | - | 21 | 357 | 317 |
| **Cyfanswm Costau Net** | 2,604 | 111 | 77 | 170 | 2,962 | 2,849 |

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha” yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr nad yw’n cael ei ariannu, ond nid yw’r Swyddfa yn gallu arenwi ei chyfran o’r asedau a’r atebolrwydd tanategol. Cynhaliwyd gwerthusiad actwaraidd o’r cynllun ar 31 Mawrth 2013, ac mae manylion ar gael yn http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/media/94676/pcsps-2012-valuation-final-report-final-22072014.pdf

Ar gyfer 2017-18 roedd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £357k (2016-17: £317k) yn daladwy i’r PCSPS ar un o bedair cyfradd rhwng 20% a 24.5% (2016-17: 20% i 24.5%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actwari’r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn gwerthusiad o’r cynllun cyflawn. Mae cyfraddau’r cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, ac nid pan fo angen talu’r costau, ac maent yn adlewyrchu profiad o’r cynllun yn y gorffennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniadau cyflogwr. Talwyd cyfraniadau pensiwn cyflogwr o £0 (2016-17: £0) i un neu ragor o’r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid a benodwyd. Mae cyfraniadau cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio o 8.0% i 14.75% (2016-17: 8.0% i 14.75%) o gyflog pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn gwneud taliadau cyfatebol i gyfraniadau’r cyflogai hyd at 3.0% o gyflog pensiynadwy.

Hefyd, roedd cyfraniadau pensiwn cyflogwr cyfatebol i 0.8% o gyflog pensiynadwy yn daladwy i’r PCSPS er mwyn talu am ddarpariaeth buddion lwmp swm yn y dyfodol am farwolaeth wrth wasanaethu a chyflogeion sy’n rhan o gynllun PCSPS yn ymddeol oherwydd gwaeledd.

Y cyfraniadau i ddarparwyr pensiwn partneriaeth yn ystod y cyfnod adrodd oedd Dim. (2016-17: £dim).

Ni fu unrhyw ymddeoliad yn ystod 2017-18 (2016-17: Dim) o ganlyniad i waeledd.


## Niferoedd Staff

Mae nifer cyfartalog staff sy'n cyfateb i lawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddangos yn y tabl isod:

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| Staff parhaol | 45.0 | 43.0 |
| Eraill | 4.0 | 4.0 |
| Gweinidogion | 2.0 | 2.0 |
| Ymgynghorwyr Arbenigol | 2.0 | 2.0 |
| **Cyfanswm** | **53.0** | **51.0** |

Nid yw'r Swyddfa yn gyflogwr ac felly rydym yn parhau i dderbyn gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). Mae ein Cynllun Pobl presennol yn canolbwyntio'n bennaf ar Arweinyddiaeth a Rheoli Newid, Cynhwysiant a Thriniaeth Deg a Dysgu a Datblygu.


Roedd gan y Swyddfa 48 aelod staff ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a gododd i 53 o ganlyniad i gyfrifoldebau ychwanegol a ddeilliodd o'r penderfyniad i adael yr UE. Fodd bynnag, fel mae'r siart isod yn ei ddangos, ni chyrhaeddwyd niferoedd llawn yn ystod unrhyw fis.




Cyfanswm yr aelodau staff swyddogol mewn swydd ar 31 Mawrth 2018 oedd 48 (46.65 fte), oedd yn cynnwys dau bersonél asiantaeth (dros dro), un rheolwr interim asiantaeth; chwe aelod staff ar fenthyg o Adrannau eraill y Llywodraeth; a phedwar

cyfreithiwr ar secondiad. Roedd 38% o'r staff wedi eu lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 62% yn Nhŷ Gwydyr, Llundain.

Mae dadansoddiad o'r staff yn ôl graddau gwasanaeth sifil i'w weld yn y siart isod:




Ni weithredwyr yr un cynllun digolledu y Gwasanaeth Sifil na chynllun digolledu arall yn 2017-18 na 2016-17.

***Recriwtio***

Aeth y Swyddfa ati i geisio llenwi 29 o swyddi a aeth yn wag yn ystod 2017-18. Roedd dwy ar gyfer llenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth, roedd pump wedi eu creu o'r newydd ac roedd 22 wedi dod yn wag. Bu i hynny ddigwydd drwy amryw ffyrdd, fel a ganlyn: Llenwyd 13 o swyddi drwy benodiadau tymor penodol gan ymgeiswyr o du allan i'r Gwasanaeth Sifil (yn cynnwys dau brentis) a gwnaethpwyd tri phenodiad arall, ond mae'r staff yn dal yn destun cliriad diogelwch; llanwyd chwech ar fenthyg yn dilyn hysbysebu mewnol ac un symudiad wedi ei reoli; ac arweiniodd pedair at ddyrchafiadau mewnol yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored ar draws y Gwasanaeth Sifil. Mae tair o'r rhain (ar gyfer staff Polisi SEO/HEO) yn dal heb eu llenwi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

***Ymadawiadau, Ymddiswyddiadau ac Ymddeoliadau***

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pedwar ar bymtheg aelod staff wedi gadael y Swyddfa: daeth un aelod staff asiantaeth i ddiwedd ei aseiniad; cymerodd un seibiant gyrfa; gadawodd tri y Gwasanaeth Sifil; symudodd deg i adrannau eraill y llywodraeth; dychwelodd tri oedd ar secondiad i'w hadrannau gwreiddiol a bu i un person oedd ar secondiad ymddeol.

Ni chynigwyd yr un cynllun gadael gwirfoddol yn ystod y flwyddyn.

***Rheoliadau Undeb Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 (Offeryn Statudol 328)***

Nid yw Rheoliadau Amser Cyfleusterau Undeb Llafur yn berthnasol i'r Swyddfa gan nad ydym yn gyflogwr ac mae gennym lai na 49 o staff cyfwerth ag amser llawn. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r cyflogwr ddarparu cynrychiolaeth undeb llafur i staff.

***Uwch Wasanaeth Sifil***

Ar 31 Mawrth 2018 roedd yna 8 swydd uwch weision sifil Yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

***Data Cydraddoldeb***

| Aelodau Staff mewn swyddi Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2018 | Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| Cyfran y merched | 1 o 6 | 1 o 6 |
| Cyfran y merched ar fand Cyflog 2 ac uwch | 0 o 1 | 0 o 1 |
| Cyfran y bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) wedi ei ddatgelu | 0 o 6 | 0 o 6 |
| Cyfran y staff Anabl wedi ei ddatgelu | 0 o 6 | 0 o 6 |

| Aelodau Staff ar Lefel is na'r Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2018 | Mawrth 2017* |
|---|---|---|
| Merched | 50% | 44%* |
| BAME | 10%** | 9.1%* |
| Anabl | 15% | 9.5%* |

* O ganlyniad i weithredu system e-HR newydd, dim ond data ar gyfer Rhagfyr 2016 sydd ar gael.

** Roedd cyfraddau datgan ar gyfer ethnigrwydd yn is na 60%.

***Amrywiaeth a Chynhwysiant***

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y cyflogwr, yn recriwtio ar ein rhan, ac mae'r Swyddfa wedi cymryd rhan yn ystod y flwyddyn mewn defnyddio ceisiadau anhysbys er mwyn lleihau tuedd anfwriadol wrth lunio rhestr fer.

Fel adran fach, mae'r Swyddfa hefyd wedi ffurfio cysylltiad a Grŵp Llywodraethiant y DU er mwyn cynnig cynlluniau fydd yn ein galluogi i gyfrannu i strategaeth eang ac uchelgais y Gwasanaeth Sifil er mwyn bod y cyflogwr mwyaf cynhwysol yn y DU. Ein cyfraniad allweddol fu annog cysylltiadau fydd yn galluogi mwy o symudedd cymdeithasol drwy gynyddu cysylltiadau rhwng gweision sifil ac ysgolion; a cheisio hyrwyddo cyfraddau datgan uwch ymysg staff.

***Rheoli Perfformiad***

Mae'r Swyddfa yn ymrwymedig i reoli perfformiad yn effeithiol. Yn unol a blynyddoedd blaenorol cafod holl adolygiadau staff eu cwblhau yn brydlon. Bu i bartner Busnes AD Y Weinyddiaeth Gyfiawnder oruchwylio chyfarfodydd dilysu er mwyn cadarnhau cydymffurfio effeithiol â'r broses a darparu safbwynt annibynnol.

***Arolwg o Ymgysylltu Staff***

Mae'r Swyddfa yn cymryd rhan mewn arolwg blynyddol o'r holl wasanaeth sifil. Yn ystod hydref 2017 ein mynegai ymgysylltu staff cyffredinol oedd 66%, sgôr uchaf erioed y swyddfa am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, sydd yn ein gosod ymysg yr Unedau Perfformiad Uchel (HPU) h.y. y chwartel uchaf ar gyfer Gwasanaeth Sifil y DU. Mae cwestiynau'r arolwg yn cael eu rhannu o dan naw thema. Y tri phrif thema gyda'r sgoriau cadarnhaol uchaf oedd: Amcanion a Phwrpas Sefydliadol (95%); Fy Nhîm (78%) a Chynhwysiant a Thriniaeth Deg (78%) sef yr un themâu oedd yn sgorio uchaf yn 2016.

Roedd ein pum sgôr cadarnhaol uchaf yn gysylltiedig â'r cwestiynau canlynol:

| | |
|---|---|
| Mae gennyf ddealltwriaeth glir o amcanion y Swyddfa. | 95% yn gadarnhaol |
| Rwyf yn deall sut mae fy ngwaith yn cyfrannu at amcanion y Swyddfa | 95% yn gadarnhaol |
| Mae gennyf ddiddordeb yn fy ngwaith. | 90% yn gadarnhaol |
| Mae gennyf y sgiliau sydd eu hangen i wneud fy ngwaith yn effeithiol. | 90% yn gadarnhaol |
| Mae'r bobl yr wyf yn gweithio â nhw yn fy nhrin gyda pharch. | 88% yn gadarnhaol |

Roedd meysydd ble yr oeddem yn cyrraedd sgoriau oedd yn uwch na'r HPU yn gysylltiedig â'r cwestiynau canlynol:

| Cwestiwn | Gwahaniaeth rhwng yr HPU |
|---|---|
| Mae Uwch reolwyr yn y Swyddfa yn ddigon gweladwy | +12 |
| Yn gyffredinol mae gennyf hyder yn y penderfyniadau a wnaed gan Uwch Reolwyr y Swyddfa. | +6 |
| Mae'r swyddfa yn fy ysgogi i wiredd ei hamcanion. | +6 |
| Rwyf yn credu y bydd uwch reolwyr yn y Swyddfa yn gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg hwn. | +6 |
| Rwyf yn falch pan fyddaf yn dweud wrth eraill fy mod yn rhan o'r swyddfa hon. | +5 |

Mae cynllun gweithredu, y cytunwyd arno gan yr holl staff, wedi'i sefydlu er mwyn helpu i godi ein Mynegai Ymgysylltu ymhellach.

***Recriwtio a systemau AD***

Er nad ydym yn gyflogwr ein hunain, rydym wedi bod yn destun dau ddatblygiad strategol o ganlyniad i weithredu system e-recriwtio ar-lein a symudiad tuag at blatfform AD ar-lein a rennir yn fwy cyffredinol gan y Gwasanaeth Sifil. Mae hynny wedi arwain at ddysgu sylweddol ymysg yr holl staff, a rheolwyr llinell yn arbennig, sydd nawr yn gyfrifol am gwblhau nifer o drafodion AD yn uniongyrchol ar-lein.

O ran recriwtio, mae hynny wedi arwain at well effeithlonrwydd o ran y gwasanaethau a rennir a ddarparwyd, ac mae mwy o welliannau yn yr arfaeth nawr er mwyn lleihau'r amser mae gwirio cyn-cyflogi yn ei gymryd, fel y gall y cyfraddau amser i logi gostyngedig y tystiolaethir amdanynt gael eu darparu yn fwy cyson ar gyfer ymgeiswyr mewnol ac allanol fel ei gilydd.

***Dysgu a Datblygu (D a D)***

Mae llawer o ffocws D a D yn 2017-18 wedi cael ei ddarparu drwy gydweithredu â Grŵp Llywodraethiant y DU yn y Swyddfa Cabinet, a datblygu "Ysgol Gyfansoddiad" rithwir, digwyddiadau oddi ar y safle wedi eu cydlynu a Rhaglenni Talent newydd. Mae ein cyfraniad wedi cynnwys datblygu Cynllun Mentora peilot ledled UKGG.

Mae cyfleoedd wedi eu teilwra drwy wefan Dysgu'r Gwasanaeth Sifil yn parhau i gael eu hyrwyddo fel y gall staff gyflawni eu 5 diwrnod y flwyddyn o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol a digwyddiadau megis Gwasanaeth Sifil Byw a digwyddiadau "Gwasanaeth Sifil Gwych" lleol a chenedlaethol.

Mae'r Swyddfa yn parhau i fod yn ymrwymedig i Brentisiaethau ac yn 2017-18 bu i bedwar aelod staff gwblhau eu cymwysterau ac ymunodd tri arall â'n cynllun.

***Cyflogi pobl anabl***

Mae'r Swyddfa yn mabwysiadu strategaeth Cymorth a Llesiant MoJ sy'n annog diwylliant ble yr ydym yn dileu (neu'n osgoi creu) rhwystrau i bobl a staff anabl; a hyrwyddo gwell dealltwriaeth o faterion anabledd.

Mae ein holl swyddi yn cael eu hysbysebu drwy'r MoJ sydd yn rhan o Gynllun Cyflogwr Hyderus ag Anabledd a chynigir Cynllun Cyfweliad Gwarantedig (GIS) i ymgeiswyr sydd yn ystyried eu hunain fel pob anabl.

***Materion Llesiant Iechyd Eraill***

Y nifer cyfartalog o ddyddiau gwaith a gollwyd (AWDL) oherwydd salwch staff yn y flwyddyn galendr 2017 oedd 1.6. Mae hyn yn parhau i fod yn llawer is na chyfartaledd dyddiau y Gwasanaeth Sifil.

Bu i Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru gymryd rhan mewn ail wythnos lawn oedd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o faterion llesiant i bawb. Bu i ddau aelod staff

hefyd dderbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl er mwyn gallu darparu cymorth i staff yn ein dwy swyddfa.

***Gwariant ar ymgynghori a staff dros dro***

Nid oedd dim gwariant ar ymgynghori yn ystod 2017-18.

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yn ystod 2017-18 oedd £110,657. Defnyddiodd yr Adran staff dros dro i dalu am staff oedd ar absenoldeb mamolaeth ac ar gyfer swyddi gwag.

***Penodiadau oddi ar y Gyflogres***

Yn ystod 2017-18 nid oedd gan y Swyddfa unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £220 y diwrnod am gyfnod o chwe mis neu fwy.

***Yr Iaith Gymraeg***

Mae'r Swyddfa wedi sefydlu ei Chynllun iaith Gymraeg ei hun ac mae'n adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ar berfformiad yn erbyn y targedau a nodir yn y Cynllun. Rydym yn sicrhau bod cyfran resymol o'r staff yn cael eu recriwtio sydd yn ddwyieithog. Mae'r aelodau staff yma yn gallu ymateb i ymholiadau ffôn a chyfathrebiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg, pan ofynnir am hynny.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg yn ein gwaith bob dydd, ac yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r staff yn unol â hynny. Mae archwiliad sgiliau staff yr Adran yn cael ei gynnal yn flynyddol ac mae canlyniad hynny yn gosod sylfaen ar gyfer ein cynllunio gweithlu ac olyniaeth. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 12% o'r staff mewn swyddi yn ddwyieithog.

# Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwillio

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei harchwilio.

## Datganiad o Gyflenwi Seneddol

Yn ychwanegol at y datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM)yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad o Gyflenwi Seneddol a nodiadau ategol er mwyn dangos alldro adnodau yn erbyn yr Amcangyfrif Cyflenwi a gyflwynwyd i'r Llywodraeth, mewn perthynas â phob terfyn rheoli cyllidebau. Mae'r SoPs a nodiadau cysylltiedig yn ddarostyngedig i archwiliad.

### Crynodeb o Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2017-18

| | | 2017-18 Amcangyfrif | | | 2017-18 Alldro | | | 2017-18 Pleidleisiwyd | 2016-17 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn SoPS | Pleidleisiwyd | Ni phleidleisiwyd | Cyfanswm | Pleidleisiwyd | Ni phleidleisiwyd | Cyfanswm | Alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben) | Cyfanswm |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| – Adnodd | 1.1 | 5,110 | – | 5,110 | 4,805 | – | 4,805 | 305 | 4,513 |
| – Cyfalaf | 1.2 | 120 | – | 120 | 73 | – | 73 | 47 | 0 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| – Adnodd | 1.1 | 6 | – | 6 | 6 | – | 6 | – | (24) |
| – Cyfalaf | 1.2 | | – | – | – | – | – | – | – |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | **5,236** | **–** | **5,236** | **4,884** | **–** | **4,884** | **352** | **4,489** |
| **Ddim yn y Gyllideb** | | | | | | | | | |
| – Adnodd | 1.1 | 14,788,892 | – | 14,788,892 | 14,130,162 | – | 14,130,162 | 658,730 | 13,525,626 |
| **Cyfanswm** | | **14,794,128** | **–** | **14,794,128** | **14,135,046** | **–** | **14,135,046** | **659,082** | **13,530,115** |
| Cyfanswm Adnoddau | | 14,794,008 | – | 14,794,008 | 14,134,973 | – | 14,134,973 | 659,035 | 13,530,115 |
| Cyfanswm Cyfalaf | | 120 | – | 120 | 73 | – | 73 | 47 | – |
| **Cyfanswm** | | **14,794,128** | **–** | **14,794,128** | **14,135,046** | **–** | **14,135,046** | **659,082** | **13,530,115** |

**Gofyniad Arian Parod Net 2017-18**

| | Nodyn | Amcangyfrif | Alldro | 2017–18 Alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/ (dros ben) | 2016–17 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gofyniad arian parod | SOPS3 | 14,793,952 | 14,134,808 | 659,144 | 13,530,144 |

**Costau gweinyddu 2017-18**

| 2017–18 Amcangyfrif | 2017–18 Alldro | 2016–17 Alldro |
|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 |
| 4,910 | 4,627 | 4,350 |

Mae'r ffigyrau yn y meysydd a amlygwyd yn gyfansymiau y pleidleisiwyd arnynt ac maent yn destun rheolaeth Seneddol. Hefyd, er nad yw'n derfyn y pleidleisiwyd arno ar wahân, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddu yn arwain hefyd at bleidlais dros ben.

Mae eglurhad o'r gwahaniaethau rhwng Amcangyfrifon ac Alldro yn cael ei roi yn Nodyn SOPs2 (Dadansoddiad o alldro net fesul adran) ac yn y Sylwadau ar yr Adolygiad Ariannol 20.

# SOPS1 Alldro Net

## SOPS1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau net fesul adran

| | Gweinyddu | | | Rhaglen | | | 2017-18 Alldro | 2017-18 Amcangyfrif | | 2016-17 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Gros | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net o'i gymharu â'r Amcangyfrif | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | |
| Pleidleisiwyd | | | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 4,689 | (62) | 4,627 | 178 | – | 178 | 4,805 | 5,110 | 305 | 4,513 |
| **Cyfanswm Gwariant a Bleidleisiwyd o fewn DEL** | **4,689** | **(62)** | **4,627** | **178** | **–** | **178** | **4,805** | **5,110** | **305** | **4,513** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | | | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd | | | | | | | | | | |
| B Darpariaethau | 6 | – | 6 | – | – | – | 6 | 6 | – | (24) |
| **Cyfanswm; Gwariant a Bleidleisiwyd o fewn AME** | **6** | **–** | **6** | **–** | **–** | **–** | **6** | **6** | **–** | **(24)** |
| Gwariant ddim yn y Gyllideb | | | | | | | | | | |
| C Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | – | – | – | 14,130,162 | – | 14,130,162 | 14,130,162 | 14,788,892 | 658,730 | 13,525,626 |
| Cyfanswm ar gyfer Amcangyfrif: | – | – | – | 14,130,162 | – | 14,130,162 | 14,130,162 | 14,788,892 | 658,730 | 13,525,626 |
| **Cyfanswm a bleidleisiwyd yn yr Amcangyfrif** | **4,695** | **(62)** | **4,633** | **14,130,340** | **–** | **14,130,340** | **14,134,973** | **14,794,008** | **659,035** | **13,530,115** |

## SOPS1.2 Dadansoddiad o alldro cyflaf net fesul adran

| | | | 2017-18 Alldro | 2017-18 Amcangyfrif | | 2016-17 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gros | Incwm | Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net Alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adranol (DEL) | | | | | | |
| Gwariant a bleidleisiwyd | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 73 | – | 73 | 120 | 47 | – |
| Cyfanswm Gwariant a Bleidleisiwyd o fewn DEL | 73 | – | 73 | 120 | 47 | – |
| **Cyfanswm ar gyfer Amcangyfrif:** | **73** | **–** | **73** | **120** | **47** | **–** |

# SOPS2. Cysoni alldro i wariant costau gweithredu net

## SOPS2.1 Cysoni alldro adnoddau net i wariant gweithredu net

| | SoPS Note | 2017-18 Alldro £000 | 2016-17 Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad o Gyflenwi Seneddol** | | | |
| Cyllideb | 1.1 | 4,811 | 4,489 |
| Ddim yn y Gyllideb | 1.1 | 14,130,162 | 13,525,626 |
| | | 14,134,973 | 13,530,115 |
| **Costau Gweithredu Net yn y Datganiad o wariant Net Cynhwysfawr** | | **14,134,973** | **13,530,115** |

# SOPS3 Cysoni Alldro Adnoddau Net i Ofyniad Arian Parod Net

| | SoPS Nodyn | Amcangyfrif £000 | Alldro £000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad/(dros ben) £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau** | 1.1 | **14,794,008** | **14,134,973** | **659,035** |
| **Alldro Cyfalaf** | 1.2 | 120 | 73 | 47 |
| **Croniadau addasiadau i arian parod** | | | | |
| *Addasiadau i gael gwared ag eitemau nad ydynt yn eitemau arian parod* | | | | |
| Dibrisiant | | (140) | (126) | (14) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i darpariaethau blaenorol | | (6) | (6) | – |
| Darpariaeth Adrannol heb ei Ddyrannu | | – | – | – |
| Gwariant cyfalaf a gefnogir (refeniw) | | – | – | – |
| Addasiadau Cyfnod Blaenorol | | – | – | – |
| Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod | | (30) | (29) | (1) |
| *Addasiadau ar gyfer NDPBs:* | | | | |
| Tynnu adnodd a chyfalaf a bleidleisiwyd | | – | – | – |
| Ychwanegu arian parod cymorth grant | | – | – | – |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithredol:* | | | | |
| Crynodiadau cyfalaf | | – | (73) | 73 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn stoc | | – | – | – |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau i'w derbyn | | – | 8 | (8) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau i'w talu | | – | (12) | 12 |
| Defnydd o ddarpariaethau | | – | – | – |
| **Tynnu eitemau cyllideb na phleidleisiwyd:** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog Cronfa Gyfunol | | | | |
| Addasiadau eraill | | | | |
| **Gofyniad arian parod** | | **14,793,952** | **14,134,808** | **659,144** |

# SOPS4. Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol

## SOPS4.1 Dadansoddiad Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Mae'r incwm canlynol yn gysylltiedig â Swyddfa Cymru ac mae'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol. (dangosir derbynebau arian parod mewn italig).

| | Alldro 2017-18 | | Alldro 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Derbynebau | Incwm | Derbynebau |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Incwm gweithredol y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrif** | | | | |
| Blaendaliadau Etholiad y Cynulliad a lldiwyd | – | – | 34 | 34 |
| **Cyfanswm Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | – | – | 34 | 34 |

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru pan oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach nag fel prifswm. Y symiau a gasglwyd fel asiant i'r Gronfa Gyfunol (sydd fel arall yn cael eu heithrio o'r datganiadau ariannol hyn) oedd:

Mae incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Benthyciadau Myfyrwyr | 29,706 | 26,797 |
| Benthyciad Pont Cleddau | 100 | 200 |
| Tai Cymru | 8 | 8 |
| Llog Banc | 19 | 22 |
| Arall | 203 | – |
| **Swm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **30,036** | **27,027** |
| Balans a ddaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn | – | – |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 30,036 | 27,027 |
| Balansau mewn ymddiriedolaeth ar ddechrau'r flwyddyn | – | – |

Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2018 a 21 Mawrth 2017:

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm o 2016-17 | | 27,061 |
| Incwm o 2017-18 | 30,036 | |
| | **30,036** | **27,061** |

## 3. Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol

### 3.1 Colledion a Thaliadau Arbennig

Ni fu i Swyddfa Cymru wneud unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn 2017-18 (2016-17 Dim).

### 3.2 Rhwymedigaethau wrth gefn anghywir Ddigwyddiadol

Nid oes gan Swyddfa Cymru unrhyw rwymedigaethau amodol wrth gefn.

Glynne Jones
Swyddog Cyfrifyddu

25 Mehefin 2018

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD RHEOLWR AC ARCHWILIWR CYFFREDINOL TŶ'R CYFFREDIN

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: Datganiadau Swyddfa Cymru o Wariant Net Cyfun, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, yn cynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel y'i harchwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2018 ac o wariant net yr Adran am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- mae'r Cyfrifon wedi'u darparu yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mewn cysylltiad â phob agwedd o sylwedd:

- mae'r Datganiad o Gyflenwi Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2018, ac mae'n dangos na ddefnyddiwyd mwy na'r cyfansymiau hynny; ac

- mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Sail safbwyntiau

Bu i mi gynnal fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir mwy am fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran Cyfrifoldebau'r Archwiliwr wrth archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fy staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar Swyddfa Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sydd yn berthnasol i fy archwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol

â'r gofynion hynny. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei derbyn yn ddigonol a phriodol er mwyn rhoi sail i fy marn.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi safbwynt gwir a theg.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, tystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn golygu caffael digon o dystiolaeth o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn rhoi aswiriant rhesymol nad oes camddatganiadau sylweddol yn y datganiadau, p'un a bod hynny drwy dwyll neu gamgymeriadau. Mae aswiriant rhesymol yn aswiriant lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISA (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o sylwedd pan maent yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod o sylwedd os, yn unigol neu wedi eu hagregu, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hynny.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISA (DU) rwyf yn rhoi dyfarniad proffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- arenwi ac asesu risgiau camddatgan o sylwedd mewn datganiadau ariannol, p'un a bod hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad, dylunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chaffael tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol a phriodol er mwyn darparu sail i fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatgan o sylwedd o ganlyniad i dwyll yn uwch nag o ganlyniad i gamgymeriad, oherwydd y gallai twyll fod yn gysylltiedig â chydgynllwynio, ffugio, hepgorion bwriadol, camgynrychioli, neu osgoi rheolaeth fewnol.

- Caffael dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sydd yn briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa Cymru.

- Gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymolrwydd amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wnaethpwyd gan y rheolwyr.

- Dod i gasgliad ar briodoldeb defnydd rheolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, a oes ansicrwydd o sylwedd yn bodoli mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau allai godi amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa Cymru i barhau fel busnes gweithredol. Os byddaf yn casglu bod ansicrwydd o sylwedd yn bodoli, mae'n ofynnol i mi ddwyn sylw yn fy adroddiad archwilio i'r datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau

ariannol, neu, os bydd y cyfryw ddatgeliadau yn annigonol, i addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad archwilio. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i'r endid beidio â bodoli fel busnes gweithredol.

- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, cynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau tanategol mewn modd sy'n darparu cynrychiolaeth deg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, cwmpas cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, yn cynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol y byddaf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gaffael digon o dystiolaeth er mwyn rhoi aswiriant rhesymol bod y Datganiad o Gyflawni Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd, ac na ddefnyddiwyd mwy na'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Cyfyngiadau Gwariant Adrannol (Adnodd a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnodd a Chyfalaf), Di-Gyllideb (Adnodd) a Gofyniad Arian Parod Net. Hefyd mae'n ofynnol i mi gaffael digon o dystiolaeth i roi aswiriant rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r wybodaeth yn Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd y Gwariant Cyhoeddus, ac eithrio'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai sydd wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arno. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o aswiriant ar hynny. Mewn cysylltiad â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei fod yn gamddatganiad o sylwedd. Os byddaf, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi ei wneud, yn casglu bod yna gamddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth arall yma, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd arno mewn perthynas â hynny.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd oedd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarfyddiadau Trysorlys EM a roddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Swyddfa Cymru a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau o sylwedd yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd, a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu na dderbyniwyd digon o ymatebion ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na fu i fy staff ymweld â hwy; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w rhoi ar y datganiadau ariannol yma.

**Syr Amyas C E Morse** **27 Mehefin 2018**
**Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

# 3 Datganiadau Ariannol

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail crynodiadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asesu anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu hadnabod hyd yma fel incwm neu wariant.

| | Nodyn | 2017-18 Adran Graidd £000 | 2016-17 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 4 | (62) | (51) |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | | (62) | (51) |
| Costau Staff | 2 | 2,962 | 2,849 |
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | 3 | 455 | 400 |
| Dibrisiant | 3 | 126 | 109 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 1,278 | 1,128 |
| Grantiau i Gronfa Gyfunol Cymru | 3 | 14,130,162 | 13,525,626 |
| Treuliau'r Arglwydd Raglaw | 3 | 52 | 54 |
| Llog NLF taladwy | | 1,641 | 1,655 |
| Llog NLF sy'n dderbyniadwy | | (1,641) | (1,655) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | 14,135,035 | 13,530,166 |
| **Gwariant Gweithredu net** | | 14,134,973 | 13,530,115 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | | | |
| **Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net:** | | | |
| Net (ennill) / colled o ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer Eiddo, Peiriannau ac Offer | | (98) | (783) |
| **Eitem ellid eu hailddosbarthu'n ganlyniadol i gostau gweithredu net:** | | | |
| Net (ennill) / colled o ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | – | – |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer** | | 14,134,875 | 13,529,332 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 70 i 87 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol
## Ar 31 Mawrth 2018

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif ran: asedau a berchnogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gweddill gwerth yr endid.

| | | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 5 | 5,535 | 5,488 |
| Asedau ariannol | 8 | 11,092 | 11,212 |
| Symiau i'w derbyn sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn | 9 | 4 | 4 |
| *Cyfanswm Asedau nghyfredol* | | 16,631 | 16,704 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w derbyn | 9 | 453 | 431 |
| Arian parod a chyfatebol | 7 | 32 | 78 |
| *Cyfanswm Asedau cyfredol* | | 485 | 509 |
| **Cyfanswm asedau** | | **17,116** | **17,213** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau eraill taladwy | 10 | (1,113) | (1,058) |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol* | | (1,113) | (1,058) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol net** | | **16,003** | **16,155** |
| **Rhwymedigaethau nghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (46) | (40) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 10 | (11,092) | (11,212) |
| *Cyfanswm rhwymedigaethau nghyfredol* | | (11,138) | (11,252) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **4,865** | **4,903** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 1,093 | 1,204 |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | 3,772 | 3,699 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **4,865** | **4,903** |

Glynne Jones
Swyddog Cyfrifyddu

25 Mehefin 2018

## Datganiad o Lif Arian
## Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018)

Mae'r Datganiad o Lif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a chyfwerth sy'n perthyn i'r adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth drwy ddosbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae swm y llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau'r gwasanaeth ac i ba raddau y mae'r gweithredoedd hyn yn cael eu hariannu gan incwm gan rai sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae mewnlifoedd ac all-lifoedd arian wedi cael ei darparu ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu i'r gwasanaethau cyhoeddus fydd yr adran yn eu darparu yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2017-18<br>£000 | 2016-17<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net | SOCNE | (14,134,973) | (13,530,115) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 3 | 161 | 127 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau eraill i'w derbyn | 9 | (22) | (64) |
| *Llai:* Symudiadau mewn symiau i'w derbyn mewn perthynas ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr[1] | 9 | 14 | 25 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau eraill taladwy | 10 | (65) | (320) |
| *Llai:* Symudiadau mewn symiau taladwy mewn perthynas ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr[1] | 10 | 77 | 216 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 11 | – | (13) |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu*** | | (14,134,808) | (13,530,144) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu Eiddo, Offer a Chyfarpar | 5 | – | – |
| (Ad-dalu benthyciadau) gan gyrff eraill | 8 | 104 | 91 |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi*** | | 104 | 91 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – Blwyddyn Gyfredol [2] | | 14,134,762 | 13,530,021 |
| Ad-dalu benthyciadau o'r NLF[3] | 8 | (104) | (91) |
| *Cyllido net* | | 14,134,658 | 13,529,930 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbynebau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 7 | (46) | (123) |
| Derbynebau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgareddau'r Adran | | 30,036 | 27,061 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol [4] | | (30,036) | (27,061) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a chyfwerth yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbynebau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 7 | (46) | (123) |
| **Arian parod a chyfwerth ar ddechrau'r cyfnod** | 7 | 78 | 201 |
| **Arian parod a chyfwerth ar ddiwedd y cyfnod** | 7 | 32 | 78 |

1. Mae symudiadau yn cynnwys: balansau adrannol gyda'r Gronfa Gyfunol; a symiau taladwy sy'n gysylltiedig â chyllido – NLF, benthyciadau (prifswm a llog), dyledwyr cyfalaf, prydlesau cyllid a PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill.
2. Dyma'r swm a dderbyniwyd o'r Gronfa Gyfunol mewn perthynas â'r flwyddyn gyfredol.
3. Mae hynny yn cynnwys benthyciadau a ad-dalwyd gan endidau i'w trosglwyddo ymlaen i'r NLF a llog a derbyniwyd gan endidau ar gyfer trosglwyddiadau i'r NLF.
4. Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol o dan unrhyw gategori.

## Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018)

Mae'r datganiad yma yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan Swyddfa Cymru wedi eu dadansoddi i 'gronfeydd wrth gefn cyffredinol' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad gan y Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu y newid mewn gwerthoedd asedau nad ydynt wedi eu hadnabod fel incwm neu wariant. Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau'r adran, i'r graddau nad yw'r cyfanswm yn cael ei gynrychioli gan gronfeydd eraill wrth gefn ac eitemau cyllido.

| | Note | Cronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio wrth gefn £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | 1,138 | 2,924 | 4,062 |
| Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu | | – | – | – |
| **Balans ar 1 Ebrill 2016** | | **1,138** | **2,924** | **4,062** |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| – Tynnu i lawr | | 13,530,021 | – | 13,530,021 |
| – Tybiedig | | 201 | – | 201 |
| Cyflenwad heb ei wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (78) | – | (78) |
| CFER sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | – | – | – |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (13,530,115) | – | (13,530,115) |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| Cydnabyddiaeth archwiliwr | 3 | 29 | – | 29 |
| **Symudiadau eraill mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Eiddo, Peiriannau ac Offer | | – | 783 | (783) |
| – Arall | | – | – | – |
| **Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 8 | (8) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **1,204** | **3,699** | **4,903** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | | 1,204 | 3,699 | 4,903 |
| **Cyllido Seneddol Net** | | | | |
| – Tynnu i lawr | SCF | 14,134,762 | – | 14,134,762 |
| – Tybiedig | 10 | 78 | – | 78 |
| Cyflenwad heb ei wario a dynnwyd i lawr sy'n ad-daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 10 | (32) | – | (32) |
| CFER sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | | | |
| Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (14,134,973) | – | (14,134,973) |
| **Costau nad ydynt yn arian parod** | | | | |
| – Cydnabyddiaeth archwiliwr | 3 | 29 | – | 29 |
| **Symudiadau eraill mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Eiddo, Peiriannau ac Offer | | – | 98 | 98 |
| – Arall | | – | – | – |
| **Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| – Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 25 | (25) | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **1,093** | **3,772** | **4,865** |

# Nodiadau Cyfrifon ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

## 1a) Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi'n unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2017-18 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRSS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bydd yr FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi y barnwyd ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru at ddibenion rhoi golwg cywir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cymru wedi'u disgrifio isod. Maent wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn gofyn i Swyddfa Cymru paratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad Cyflenwad Seneddol a'i nodiadau ategol yn adrodd ar all-lif yn erbyn yr Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net.

Arian cyfred swyddogaethol a chyflwyniadol Swyddfa Cymru yw Punt Sterling Prydain (£).

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r Cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol er mwyn rhoi cyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol.

### 1.3 Segmentau gweithredu

Ystyrir bod Swyddfa Cymru'n darparu un swyddogaeth ac o ran adroddiadau IFRS ystyrir ei bod yn un segment gweithredu.

### 1.4 Eiddo, offer a chyfarpar

***Sail prisio***

Mae asedau eiddo, offer a chyfarpar (PPE) yn cael eu datgan ar werth teg. Ar gydnabyddiaeth gychwynnol, mesurir asedau PPE ar gost gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w dwyn i gyflwr gweithio.

### *Dull prisio*

Mae gan Swyddfa Cymru un ased eiddo – Tŷ Gwydyr – a gynhwysir ar sail ei werth teg, yn unol â dehongliad yr FReM, ar sail prisiad proffesiynol, a gynhelir leiaf unwaith bob pum mlynedd. Rhwng prisiadau proffesiynol, mae gwerthoedd sy'n cario yn cael eu haddasu drwy brisiadau proffesiynol bwrdd gwaith.

Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn cwblhau prisiadau proffesiynol gan ddefnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), a elwir yn 'Llyfr Coch'.

Mae Tŷ Gwydyr yn cael ei gategoreiddio'n adeilad rhestredig gradd 2* ac fe'i prisir ar sail 'Defnydd Presennol' yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried darfodedigrwydd swyddogaethol yr eiddo.

Mae asedau heb fod yn eiddo'n cael eu cynnwys ar gost wrth brynu ac yn cael eu hailddatgan ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio'r Rhifau Mynegai Prisiau ar gyfer Cyfrifyddu Cost Cyfredol (PINCCA) y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'u cynhyrchu.

### *Ailbrisio*

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, cydnabyddir y cynnydd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i'r graddau y mae'n gwrthdroi gostyngiad ailbrisio'r un ased a gydnabuwyd eisoes yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n syth i'r gronfa Ailbrisio wrth gefn yn ecwiti Trethdalwyr.

Pan fydd swm cario ased yn gostwng (ac eithrio o ganlyniad i leihad parhaol), cydnabyddir y gostyngiad yn y gronfa Ailbrisio wrth gefn i'r graddau y mae balans yn bodoli mewn perthynas â'r ased hwnnw. Bydd unrhyw ostyngiad pellach dros ailbrisio gwargedion â thâl i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Bob blwyddyn mae'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant ar sail swm cario'r ased a ail-brisiwyd â thâl i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a dibrisiant ar sail cost wreiddiol yr ased yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa Ailbrisio wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol.

### *Trothwy cyfalafu – asedau unigol*

Trothwy cyfalafuasedau unigol Swyddfa Cymru yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

### *Trothwy cyfalafu – asedau wedi'u grwpio*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi cael ei chyfalafu.

Mae Swyddfa Cymru'n defnyddio trothwy cyfalafu ar gyfer asedau wedi'u grwpio o £10,000 (yn cynnwys TAW).

### *Dibrisiant*

Codir tâl am ddibrisiant ar sail llinell syth ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau llai gwerth gweddilliol amcangyfrifiedig dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifiedig neu, ar gyfer asedau ar brydles, dros oes y brydles neu'r cyfnod sy'n ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Mae oes defnyddio asedau neu gategorïau ased yn cael eu hadolygu bob blwyddyn a thrafodir unrhyw newidiadau â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod goblygiadau cyllido wedi cael eu hystyried yn briodol. Pan gytunir ar newid i oes ased, mae'r ased yn cael ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes a aseswyd. Mae dibrisiant yn cychwyn yn y mis yn dilyn caffael ased anghyfredol ar gyfer tir, adeiladau ac anheddau ac yn y mis ar gyfer pob ased anghyfredol arall.

Mae oes ddefnyddiol asedau amcangyfrifiedig yn yr ystodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | Heb ddibrisio |
| Adeiladau rhydd-ddaliad (yn cynnwys anheddau) | Dibrisio dros oes yr asedau (hyd at 60 mlynedd) |
| Asedau wedi'u grwpio | Amrywiol yn dibynnu ar fathau asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Y byrrach allan o gyfnod y brydles sy'n weddill neu 3 i 15 mlynedd |
| Offer a chyfarpar | Y byrrach allan o gyfnod y brydles sy'n weddill neu 3 i 20 mlynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | Y byrrach allan o gyfnod y brydles sy'n weddill neu 5 i 20 mlynedd |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Heb Ddibrisio |

Caiff y gwerthoedd cludo eu hadolygu am ddiffygion os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dynodi efallai ni fydd yn bosibl adennill y gwerth cario. Os pennir bod ased yn ddiffygiol, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr ar unwaith i'r swm gellir ei adennill.

### *Gwaredu asedau anghyfredol*

Pennir enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol trwy gymharu'r elw â'r swm cario ac maent yn cael eu cydnabod yng nghostau Gweinyddiaeth neu Raglen, fel bo'n briodol, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pan fydd asedau a ail-brisiwyd yn cael eu gwerthu, mae'r symiau yn y gronfa Ailbrisio wrth gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.5 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu'n cael eu prisio ar gost hanesyddol mewn eiddo, offer a chyfarpar ac nid yw Asedau anniriaethol yn cael eu dibrisio na'u dileu. Mae ased yn rhoi'r gorau i gael ei ddosbarthu fel ased sy'n cael ei adeiladu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Yna mae ei werth cario'n cael ei dynnu o asedau sy'n cael eu hadeiladu a'i drosglwyddo i'r categori ased perthnasol. Yna codir tâl am ddibrisio neu ddileu ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu a ddatganwyd.

Mae gariant yn cael ei gyfalafu pan y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithredol. Os tybir na ellir priodoli gwariant i'r ased, mae'r cael ei nodi fel gwariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.6 Prydlesau

### *Prydlesau Gweithredu*

Mae prydlesau lle mae'r holl risgiau a gwobrau sylweddol ym meddiant y prydleswr yn cael eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu. Codir tâl am renti prydles i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

### *Trefniadau sy'n cynnwys prydles*

Wrth bennu a yw Swyddfa Cymru'n barti i brydles, bydd contractau nad ydynt ar ffurf gyfreithiol prydles ond sy'n gallu cynnwys prydles gorfforedig, er enghraifft trefniadau ar gontract allanol a chontractau cymryd-neu-dalu, yn cael eu hasesu'n unol â'r meini prawf y mae IFRIC (International Financial Reporting Interpretations Committee) wedi'u gosod 4 'Pennu a yw Trefniant yn Cynnwys Prydles'. Cyfrifir am y contract fel yn achos prydles os bydd cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol ac mae'r trefniant yn trawsgludo hawl i ddefnyddio'r ased. Yna asesir y trefniant o dan IAS 17 i bennu a yw'n cael ei ddosbarthu fel prydles cyllid neu weithredu.

## 1.7 Buddsoddiadau

### *Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF)*

Mae blaendaliadau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (NLF) yn cael eu trin fel buddsoddiadau a'u datgelu ar gost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau o'r NLF a fenthyciwyd ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru. Yna cawsant eu trosglwyddo i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn y 1980au; ac yna i Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) pan ddiddymwyd DBRW ym 1998. Yn dilyn diddymu'r WDA yn 2006, mae cyfrifoldeb am ad-dalu prif fenthyciad a llog yn perthyn i Lywodraeth Cymru a chodir tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd symiau a dderbyniwyd gan Swyddfa Cymru'n cael eu hildio i'r NLF. Mae balansau benthyciadau sy'n aros wedi'u cynnwys mewn Masnach a symiau taladwy eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

## 1.8 Buddion gweithwyr

### *Croniadau absenoldeb gweithwyr*

O dan IAS 19 'Buddion Gweithwyr', gwneir croniadau ar gyfer absenoldeb hyblyg a gwyliau blynyddol heb eu cymryd. Ni chronnir taliadau bonws perfformiad oherwydd nid yw'r broses arfarnu flynyddol sy'n pennu tâl perfformiad wedi'i therfynu ar adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

### *Pensiynau*

Mae darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn cwmpasu gweithwyr presennol a gorffennol. Nid yw'r cynlluniau â buddion wedi'u diffinio'n cael eu hariannu.

Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod pan oedd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifwyd ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb y PCSPS. Mewn perthynas â'r cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio, mae'r adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

### *Costau ymadael yn gynnar*

Nid yw Swyddfa Cymru yn gyflogwr uniongyrchol. Mae'r holl staff yn naill ai staff y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynteu staff Llywodraeth Cymru a chyfrifoldebau'r Adrannau hyn yw talu'r costau ychwanegol am fuddion y tu hwnt i'r PCSPS arferol staff sy'n ymddeol yn gynnar. O dan amgylchiadau penodol lle mae Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, mae costau ymadael cynnar yn cael eu darparu yn llawn ar yr adeg pan mae'r cytundeb yn rhwymol. Mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig wedi'u haddasu yn ôl risg yn cael eu gostwng gan ddefnyddio cyfradd ostyngiad Trysorlys EM o 0.10% (2016-17: 0.24%) mewn termau reol os yw'n berthnasol.

### 1.9 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm mae'r Adran yn ennill.

### 1.10 Derbynebau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol (CFERs)

Cyfrifir balansau CFERs ar sail croniadau, oni nodir yn wahanol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru a ddynodwyd gan y Trysorlys o dan Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r symiau hyn yn cael eu talu gan Weinidogion Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn gyfrifoldeb Cronfa Gyfunol Cymru. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau trwy adfer ernesau coll o etholiadau'r Cynulliad. Mae Swyddfa Cymru yn talu'r symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol y DU.

### 1.11 Gwariant Gweinyddiaeth a Rhaglen

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys gwariant gweinyddiaeth ar gyfer costau rhedeg Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant rhaglen ar gyfer treuliau'r Arglwydd Raglaw a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

### 1.12 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan mae gan Swyddfa Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol presennol, o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol, ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o hyn ar gyfer swm y rhwymedigaeth.

Mae darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith y gostyngiad yn berthnasol, mesurir darpariaethau ar eu gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd real a osodwyd gan Drysorlys EM, 2.4% ar hyn o bryd; o'i chymharu â 2016-17 pan oedd cyfraddau'n 2.7%.

## 1.13 Treth ar Werth (TAW)

Codir tâl am TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yng nghostau prynu a gyfalafwyd asedau anghyfredol. Pan godir tâl am dreth allbwn neu mae treth mewnbwn yn adferadwy, mae'r symiau'n cael eu datgan yn net o TAW.

## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi o gontractau am brynu a gwerthu eitemau heb fod yn ariannol (fel nwyddau neu wasanaethau), a roddir yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan fydd perfformiad yn digwydd, ac i'r graddau hynny. Mae pob rhwymedigaeth ac ased ariannol arall yn cael eu cydnabod pan fydd Swyddfa Cymru'n dod yn barti i'r darpariaethau cytundebol i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Nid yw rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd y contract sy'n arwain atynt yn cael eu setlo, eu gwerthu, eu canslo neu'n dod i ben.

### *Dosbarthu a mesur – asedau ariannol*

Yn ychwanegol at Arian parod a chyfwerth ag arian parod, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

#### *Benthyciadau a symiau derbyniadwy*

Mae benthyciadau ac eitemau derbyniadwy yn cynnwys eitemau masnach derbyniadwy, eitemau eraill derbyniadwy a benthyciadau sydd â thaliadau sefydlog neu ganfyddadwy heb eu dyfynnu mewn marchnad weithredol. I ddechrau cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar werth teg ac yna mesurir hwy ar gost wedi'i ddileu gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol net o unrhyw amhariad. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol. Mae'r gyfradd llog effeithiol yn ddull o gyfrifo cost ased ariannol wedi'i ddileu a dyrannu'r gwariant neu refeniw llog dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio'r llifoedd arian amcangyfrifiedig yn y dyfodol.

## 1.15 Arian ac Arian Cyfwerth

Mae Arian parod a chyfwerth ag arian parod a gofnodir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, arian cadw ar alw â banciau, buddsoddiadau tymor byr eraill sy'n hylifol iawn ag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mi neu lai, a gorddrafftiau banc.

## 1.16 Tybiaethau ac amcangyfrifol cyfrifyddu sylweddol

Mae'r Cyfrifol yn adlewyrchu amcangyfrifon a thybiaethau mewn perthynas â'r dyfodol. Trwy ddiffiniad, mae'n annhebygol y bydd yr amcangyfrifon yr un peth â'r canlyniadau gwirioneddol. Mae amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau y mae perygl sylweddol y byddant yn achosi addasiad sylweddol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu trafod isod.

***Darpariaeth ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau***

Mae'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau yr adroddwyd arnynt yn nodyn 13 yn adlewyrchu dyfarniad ynghylch tebygolrwydd trosglwyddiad yn y dyfodol o fuddion economaidd a fydd yn deillio o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol. Lle mae'r tebygrwydd o rwymedigaeth yn grisialu'n cael ei dybio'n debygol a lle mae'n bosibl mesur yr effaith â sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Lle bernir bod y posibilrwydd bod rhwymedigaethau posibl yn grisialu'n bosibl, datgelir rhwymedigaeth amodol.

***Cyfrifyddu prydles***

Mae angen arddel barn wrth ddosbarthu prydlesau yn gychwynnol fel naill ai prydlesau gweithredu neu brydlesau cyllid.

Pan fydd prydles yn cael ei chymryd allan ar gyfer tir ac adeiladau wedi'u cyfuno, gall yr elfen adeilad a'r elfen dir gael eu cyfalafu fel prydlesau cyllid ar wahân os byddant yn bodloni'r meini prawf ar gyfer prydles cyllid. Os na fydd taliadau'r brydles ar gontract yn cael eu rhannu rhwng tir ac adeiladau yng nghontract y brydles mae'r rhaniad yn cael ei wneud ar sail gwerthoedd marchnad y tir a'r adeiladau ar ddechrau'r brydles.

## 1.17 Defnydd sydd ar ddod o safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt yn effeithiol eto

Mae'r safonau newydd, y dehongliadau a'r diwygiadau canlynol wedi cael eu mabwysiadu gan yr UE, ond nid ydynt wedi dod i rym eto. Mae'n bosibl y byddant yn effeithio ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol:

Bydd Offerynnau Ariannol – IFRS 9 yn disodli Offerynnau Ariannol IAS 39: Cydnabyddiaeth a Mesuriadau a'r dyddiad dod i rym yw 1 Ionawr 2018. Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn defnyddio'r IFRS sydd wedi'u mabwysiadu gan yr UE, sy'n cyd-fynd â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Bydd y safon newydd yn cael ei rhoi ar waith yn y llywodraeth ganolog o 2018-19 ymlaen. Mae IFRS 9 yn darparu ar gyfer dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar egwyddorion ar gyfer yr offerynnau ariannol, gan gynnwys eu dosbarthu a'u mesur. Nid yw'r Swyddfa hon yn disgwyl i'r safon hon effeithio ar gyfrifon yn y dyfodol.

Bydd IFRS 16 – Lesoedd yn disodli IAS 17 Lesoedd a dehongliadau cysylltiedig a'r dyddiad dod i rym yw 1 Ionawr 2019. Mae'r safon newydd yn darparu ar gyfer model cyfrifyddu un lesddeiliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau ac atebolrwydd am bob les oni bai fod tymor y les yn 12 mis neu lai neu os oes gwerth isel i'r ased sy'n sail iddo. Mae leswyr yn parhau i ystyried lesoedd fel rhai gweithredol neu gyllidol, ac nid yw dull gweithredu IFRS 16 wrth ymdrin â chyfrifon leswyr wedi newid yn sylweddol ers ei rhagflaenydd, IAS 17. Disgwylir i'r safon newydd gael ei rhoi ar waith yn y llywodraeth ganolog o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Mae’r Swyddfa yn disgwyl i IFRS 16 gael effaith sylweddol ar gyfrifon yn y dyfodol wrth i ni ddod â’n brydles weithredol bresennol ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

## 2. Costau Staff

| | | | | | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a Gyflogir yn Barhol a Secondeion i mewn | Eraill | Gweinidogion | Cynghhorwyr Arbennig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau | 2,084 | 111 | 68 | 133 | 2,396 | 2,361 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 184 | – | 9 | 16 | 209 | 171 |
| Costau pensiwn arall | 336 | – | – | 21 | 357 | 317 |
| **Cyfanswm Costau** | 2,604 | 111 | 77 | 170 | 2,962 | 2,849 |

Mae costau Staff a Niferoedd yn cael eu datgelu yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

## 3. Costau Gweinyddol Eraill

| | 31 Mawrth 2018<br>£000 | 31 Mawrth 2017<br>£000 |
|---|---|---|
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | 455 | 400 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | 40 | 54 |
| Rhentu o dan brydlesau gweithredu: tir ac adeiladau | 161 | 140 |
| Rhentu o dan brydlesau gweithredu: arall (offer, peiriannau, cerbydau ac ati) | 49 | 47 |
| Ffioedd consesiwn gwasanaeth: TG | – | 5 |
| Gwasanaethau TG a thelegyfathrebu (trefniadau heb fod yn gonsesiwn gwasanaeth) | 157 | 152 |
| Gwasanaethau eraill ar gontractau allanol | 19 | 14 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | 420 | 325 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 180 | 149 |
| Hyfforddiant a chostau eraill sy'n ymwneud â staff | 18 | 18 |
| Taliadau a ffioedd banc | 3 | 3 |
| Gwariant gweinyddol eraill | 28 | 37 |
| Digwyddiadau a Chynadleddau | 14 | 4 |
| Dyrannu gorbenion | 154 | 162 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | | |
| Treuliau a chydnabyddiaeth ariannol archwilwyr | 29 | 29 |
| Darpariaeth yn y flwyddyn | 6 | – |
| Darpariaeth ar gyfer adfer gwerth yn ystod y flwyddyn | – | (11) |
| **Cyfanswm Costau Gweinyddol** | **1,733** | **1,528** |
| | | |
| *Costau Rhaglen – Swyddfa Cymru* | | |
| Treuliau'r Arglwydd Raglaw | 52 | 54 |
| Grantiau i Gronfa Gyfunol Cymru | 14,130,162 | 13,525,626 |
| | | |
| *Eitemau nad ydynt yn arian parod* | | |
| *Dibrisiant | 126 | 109 |
| **Cyfanswm Costau'r Rhaglen** | **14,130,340** | **13,525,789** |
| | | |
| **Gwariant Gweithredu Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018** | **14,132,073** | **13,527,317** |

## 4. Incwm

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Incwm** | | |
| Incwm rhent | 62 | 51 |
| **Cyfanswm incwm** | 62 | 51 |

Nid oes dim Incwm yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

## 5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir rhydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-dailad | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 2017-18 | | | | | | |
| Cost neu brisiant | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 3,264 | 2,086 | 205 | 260 | – | 5,815 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 38 | 35 | 73 |
| Ailbrisio | – | – | 2 | – | – | 2 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 3,264 | 2,086 | 207 | 298 | 35 | 5,890 |
| Dibrisiant | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | – | – | (166) | (161) | – | (327) |
| Taliadau yn y flwyddyn | – | (99) | (10) | (17) | – | (126) |
| Ailbrisio | – | 99 | – | (1) | – | 98 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | – | – | (176) | (179) | – | (355) |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2018 | 3,264 | 2,086 | 31 | 119 | 35 | 5,535 |
| Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2017 | 3,264 | 2,086 | 39 | 99 | – | 5,488 |
| Cyllido asedau O dan berchnogaeth | 3,264 | 2,086 | 31 | 119 | 35 | 5,535 |

Mae syrfewyr siartredig cymwys o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn cynnal prisiadau proffesiynol o dir ac eiddo, i gyd yn ymwneud â Thŷ Gwydyr, gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sef y 'Llyfr Coch' Cynhaliwyd y prisiad olaf ar 31 Mawrth 2015. Rhwng prisiadau proffesiynol mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu prisio gan ddefnyddio mynegeion.

Mae pob ased ac eithrio tir ac adeiladau ac asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu hailbrisio ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio'r Mynegai Pris Cynhyrchwr a baratowyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## 5.a Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Tir rhydd-ddaliad | Adeiladau Rhydd-ddaliad | Offer a Chyfarpar | Dodrefn a Ffitiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 2016-17 | | | | | |
| Cost neu brisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 2,837 | 1,813 | 203 | 260 | 5,113 |
| Ychwanegiadau | – | – | | – | – |
| Ailbrisio | 427 | 273 | 2 | | 702 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 3,264 | 2,086 | 205 | 260 | 5,815 |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | – | – | (156) | (143) | (299) |
| Taliadau yn y flwyddyn | – | (82) | (10) | (17) | (109) |
| Ailbrisio | – | 82 | | (1) | 81 |
| Ar 31 Mawrth 2017 | – | – | (166) | (161) | (327) |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2017 | 3,264 | 2,086 | 39 | 99 | 5,488 |
| Llyfrwerth net ar 1 Ebrill 2016 | 2,837 | 1,813 | 47 | 117 | 4,814 |
| Cyllido asedau O dan berchnogaeth | 3,264 | 2,086 | 39 | 99 | 5,488 |

Mae syrfewyr siartredig cymwys o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn cynnal prisiadau proffesiynol o dir ac eiddo, i gyd yn ymwneud â Thŷ Gwydyr, gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), sef y 'Llyfr Coch' Cynhaliwyd y prisiad olaf ar 31ain Mawrth 2015. Rhwng prisiadau proffesiynol mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu prisio gan ddefnyddio mynegeion.

## 6. Cyfalaf ac Ymrwymiadau eraill

### 6.1 Ymrwymiadau o dan Brydlesau Gweithredu

Rhoddir ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredu i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod.

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae Ymrwymiadau o dan Brydlesau Gweithredu yn cynnwys:** | | |
| **Adeiladau:** | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 90 | 90 |
| Hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 271 | 360 |
| Hwyrach na phum mlynedd | | 1 |
| **Cyfanswm** | 361 | 451 |

Mae'r brydles adeiladau'n ymwneud â llety prydles ar gyfer Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd.

## 7. Arian parod a chyfatebol

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2017 | 78 | 201 |
| Newid net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | (46) | (123) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **32** | **78** |

Roedd yr holl falansau wedi'u dal â Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 8. Buddsoddiadau

| | Benthyciadau a ariannwyd gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol |
|---|---|
| | £000 |
| **Cost neu brisiant** | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | 11,330 |
| Addasiad taliad cyfalaf yn 2016-17 | (14) |
| Benthyciadau ad-daladwy o fewn 12 mis trosglwyddo i symiau derbyniadwy | (104) |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | 11,212 |
| Benthyciadau ad-daladwy o fewn 12 mis trosglwyddo i symiau derbyniadwy | (120) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | 11,092 |

## 9. Symiau Masnach Derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:** | | |
| Symiau masnach derbyniadwy | 113 | 131 |
| Symiau TAW derbyniadwy | 1 | 6 |
| Adneuon a blaendaliadau | 10 | 6 |
| Symiau derbyniadau eraill | 74 | 15 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 8 | 40 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – llog derbyniadwy | 127 | 129 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 120 | 104 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | **453** | **431** |

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | |
| Adneuon a blaendaliadau | 4 | 4 |
| **Cyfanswm symiau derbyniadwy** | 4 | 4 |

## 10. Symiau Masnach Taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:** | | |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 104 | 50 |
| Symiau masnach taladwy | 59 | 115 |
| Symiau taladwy eraill | 62 | 87 |
| Crynodiadau | 536 | 495 |
| Cronfeydd cyfalaf | 73 | - |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – cyfalaf | 120 | 104 |
| Rhan gyfredol o fenthyciad NLF – llog taladwy | 127 | 129 |
| Symiau o'r Gronfa Gyfunol i gyflenwi ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | 32 | 78 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | 1,113 | 1,058 |

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | |
| Benthyciadau NLF | 11,092 | 11,212 |
| **Cyfanswm symiau taladwy** | 11,092 | 11,212 |

## 11. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Costau Ymddeoliad Cynnar | Costau Dadfeilio Lesddaliad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2016 | 24 | 40 | 64 |
| Darpariaethau diangen a ysgrifennwyd yn ôl | (11) | – | (11) |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (13) | – | (13) |
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | – | 40 | 40 |
| | | | |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | 6 | 6 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | – | 46 | 46 |

Y costau dadfeilio lesddaliad yw'r symiau posibl a fydd yn daladwy yn y dyfodol wrth adael y brydles i Swyddfa Caerdydd.

### 11.1 Dadansoddiad o amseriad disgybledig llifoedd gostyngol

| | Dadfeilio Llesddaliad 2017-18 |
|---|---|
| | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | – |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 46 |
| Hwyrach na phum mlynedd | – |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | 46 |

| | Dadfeilio Llesddaliad 2016-17 |
|---|---|
| | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | – |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | – |
| Hwyrach na phum mlynedd | 40 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | 40 |

## 12. Trafodion partïon cysylltiedig

### *Adrannau Cysylltiedig a chyrff eraill Llywodraeth ganolog*

Mae Swyddfa Cymru'n ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael amrywiaeth o drafodion perthnasol ag ef yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, mae Swyddfa Cymru wedi cael nifer o drafodion arwyddocaol ag adrannau eraill y llywodraeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bennaf a chyrff eraill llywodraeth ganolog.

Nid yw unrhyw weinidog, aelod bwrdd, rheolwr allweddol neu barti arall cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Adran yn ystod y flwyddyn.

* Mae'r holl iawndal ar gyfer uwch reolwyr wedi cael ei ddatgelu'n llawn yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

## 13 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events After the reporting Period', mae digwyddiadau ar ôl y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad pan awdurdodir y Cyfrifon i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir hyn fel yr un dyddiad ag y mae'r Cyfrifon yn cael eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

# Atodiad 1: Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus

## TABL 1

### Gwario gan Swyddfa Cymru & Llywodraeth Cymru 2013-14 to 2019–20

| | 2013-14 Alldro £000 | 2014-15 Alldro £000 | 2015-16 Alldro £000 | 2016-17 Alldro £000 | 2017-18 Cynlluniau £000 | 2017-18 Alldro (7) £000 | 2018-19 Cynlluniau £000 | 2019-20 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Swyddfa Cymru | | | | | | | | |
| Gwariant ar adnoddau o fewn Costau Gweinyddol | 4,406 | 4,280 | 3,937 | 4,350 | 4,910 | 4,627 | 4,540 | 4,630 |
| Gwariant ar adnoddau eraill | 43 | 43 | 54 | 163 | 200 | 178 | 110 | 110 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru [2]** | **4,449** | **4,323** | **3,991** | **4,513** | **5,110** | **4,805** | **4,650** | **4,740** |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 564 | 117 | 45 | 0 | 120 | 73 | 30 | 30 |
| **TGA Adnoddau + Cyfalaf Swyddfa Cymru[2]** | **5,013** | **4,440** | **4,036** | **4,513** | **5,230** | **4,878** | **4,680** | **4,770** |
| *llai dibrisant a lleihad mewn gwerth* | *-71* | *-131* | *-100* | *-109* | *-140* | *-126* | *-110* | *-110* |
| **TGA Swyddfa Cymru[3]** | **4,942** | **4,309** | **3,936** | **4,404** | **5,090** | **4,752** | **4,570** | **4,660** |

### Gwariant Llywodraeth Cymru (Y Floc Cymru)[6]

| | 2013-14 Alldro £000 | 2014-15 Alldro £000 | 2015-16 Alldro £000 | 2016-17 Alldro £000 | 2017-18 Cynlluniau £000 | 2017-18 Alldro (7) £000 | 2018-19 Cynlluniau £000 | 2019-20 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd Llywodraeth Cymru (cyn Addasisd Grantiau Bloc) | 14,466,418 | 14,202,351 | 13,328,115 | 13,324,553 | 14,414,970 | 13,999,205 | 14,195,404 | 14,270,032 |
| *llai: Addasiad Grant Bloc* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* | *-269,000* | *-277,000* |
| Adnodd | 14,466,418 | 14,202,351 | 13,328,115 | 13,324,553 | 14,414,970 | 13,997,716 | 13,926,404 | 13,993,032 |
| Cyfalaf | 1,324,687 | 1,500,097 | 1,542,599 | 1,448,699 | 1,965,612 | 1,824,676 | 1,900,608 | 2,113,285 |
| **Cyfanswm Adnoddau + Cyfalaf** | **15,791,105** | **15,702,448** | **14,870,714** | **14,773,252** | **16,380,582** | **15,822,392** | **15,827,012** | **16,106,317** |
| *llai dibrisant a lleihad mewn gwerth* | *-757,100* | *-448,732* | *-513,641* | *-253,319* | *-949,538* | *-708,226* | *-664,279* | *-689,981* |
| **TGA Llwordraeth Cymru[3][5]** | **15,034,005** | **15,253,716** | **14,357,073** | **14,519,933** | **15,431,044** | **15,114,166** | **15,162,733** | **15,416,336** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) IGan gynnwys dibrisiant a namau
(3) Adnoddau + cyfalaf - dibrisiant ad mewn gwerth. (cynnwys nam Benthciadau I Fyfyrwyr).
(4) (4) Yn ôl confensiwn mynegir cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol fel dibrisiant a namau llai adnoddau a chyfalaf. Felly ni fydd y niferoedd adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn gyfystyr â Therfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yn dibrisiant a namau.
(5) Mae ffigurau TGA am flynyddoedd alldro wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.
(6) O Arolwg Gwariant 2015, nid yw gwariant Swyddfa Cymru bellach yn rhan o Bloc Cymru
(7) Alldro Swyddfa Cymru y data yn cynrychioli alldro terfynol a bydd yn cyd-fynd a'r cyfrifon cyhoeddedig mewn man arall yn y ddogfen hon. Mae data Llwodraeth Cymru yn dangos canlyniad dros wrth i Lywodraeth Cymru i gwbihau eu cyfrifon eto.

Ar ôl i'r Trysorlys gyhoeddi data Tryloywder Grantiau Bloc (https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-december-2017-publication), mae'r tabl a oedd yn ymddangos yn rhifynnau blaenorol Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Alban, yn cysoni newidiadau yn y Bloc yng Nghymru o un flwyddyn i'r llall, wedi cael ei derfynu. Dylai defnyddwyr yr wybodaeth hon gyfeirio at ddata Tryloywder Grantiau Bloc y Trysorlys yn lle hynny.

## TABL 2

## Grant arian parod a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2016–17: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Amcangyfrif o'r Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA[2] | 15,232,941 | 15,541,943 | 14,773,252 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 557,080 | 718,911 | 661,608 |
| Trethi Annomestig | 977,000 | 977,000 | 977,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **16,767,021** | **17,237,854** | **16,411,860** |
| *Llai:* | | | |
| *Gwariant heb ei bleidleisio:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Eraill heb ei Votota | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Heb Arian Parod o Adnoddau | 589,240 | 757,312 | 253,319 |
| AME Heb fod yn arian parod | 110,403 | 240,260 | 271,025 |
| **CYFANSWM NI WEDI'I VOTED TME** | **794,521** | **1,092,450** | **619,222** |
| **CYFANSWM TME VOTED** | **15,972,500** | **16,145,404** | **15,792,638** |
| **Derbynebau wedi'u pleidleisio** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,140,187 | 1,140,652 | 1,140,652 |
| Derbyniadau NDR | 977,000 | 1,034,452 | 1,034,452 |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 620 | 60,620 | -158,165 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | 67,360 |
| Grant arian sy'n daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru | 0 | 0 | -1,103 |
| **Grant Arian sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru[3]** | **13,855,933** | **14,030,920** | **13,525,626** |

Notes
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Adnoddau + cyfalaf TGA yn cynnwys dibrisiant.
(3) Dedd Llwodraeth Cymru 2006, Adran 118 (2).
(4) Mae'r holl eitemau sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at wariant a wneir gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru

Ar ôl i'r Trysorlys gyhoeddi data Tryloywder Grantiau Bloc (https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-december-2017-publication), mae'r tabl a oedd yn ymddangos yn rhifynnau blaenorol Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Alban, yn cysoni newidiadau yn y Bloc yng Nghymru o un flwyddyn i'r llall, wedi cael ei derfynu. Dylai defnyddwyr yr wybodaeth hon gyfeirio at ddata Tryloywder Grantiau Bloc y Trysorlys yn lle hynny.

## TABL 3

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2017–18: Darpariaeth ac Amcangyfrif o'r Alldro

| | Darpariaeth Wreiddiol £000 | Darpariaeth Derfynol £000 | Amcangyfrif o'r Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA [(2)] | 15,605,433 | 16,380,582 | 15,822,392 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 754,198 | 787,749 | 681,861 |
| Gwariant Ariennir gan Fenthyca Cyfalaf | 20,000 | 0 | 0 |
| Non Domestic Rates | 1,059,000 | 1,059,000 | 1,059,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **17,438,631** | **18,227,331** | **17,563,253** |
| *Llai:* | | | |
| Gwariant heb ei bleidleisio: | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd ALl | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Eraill heb ei Votota | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Trafodion Deddf Cymru 2014: | | | |
| Benthyca Cyfalaf | 20,000 | 0 | 0 |
| Heb Arian Parod o Adnoddau | 636,264 | 949,538 | 708,226 |
| AME Heb fod yn arian parod | 204,937 | 226,810 | 237,683 |
| **CYFANSWM NI WEDI'I VOTED TME** | **956,079** | **1,271,226** | **1,040,787** |
| **CYFANSWM TME VOTED** | **16,482,552** | **16,956,105** | **16,522,466** |
| **Derbynebau wedi'u pleidleisio** | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,163,325 | 1,208,865 | 1,208,865 |
| Derbyniadau NDR | 1,001,278 | 1,018,348 | 1,018,348 |
| **Addasiadau Amseru** | | | |
| Cynnydd/Costyngiad mewn Dyledwyr a Creditors | 0 | 60,000 | 48,925 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 0 | 0 | 109,124 |
| Grant arian sy'n daladwy I Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru | 0 | 0 | 7,042 |
| **Grant Arian sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru [(3)]** | **14,317,949** | **14,668,892** | **14,130,162** |

Notes
'(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Adnoddau + cyfalaf TGA yn cynnwys dibrisiant
(3) Mae'r holl eitemau sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at wariant a wneir gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru

Ar ôl i'r Trysorlys gyhoeddi data Tryloywder Grantiau Bloc (https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-december-2017-publication), mae'r tabl a oedd yn ymddangos yn rhifynnau blaenorol Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Alban, yn cysoni newidiadau yn y Bloc yng Nghymru o un flwyddyn i'r llall, wedi cael ei derfynu. Dylai defnyddwyr yr wybodaeth hon gyfeirio at ddata Tryloywder Grantiau Bloc y Trysorlys yn lle hynny.

## TABL 4
## Cyfrifo'r Grant Arian Taladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2018–19

| | 2018-19 £000 |
|---|---|
| Gwariant wedi'i Ddosbarthu fel TGA (Grant Bloc) [(2)] | 15,827,012 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 741,995 |
| Gwariant a Ariennir gan Drethi Cymru | 275,880 |
| Gwariant Cyllidwyd gan Benthyca Cyfalaf | 125,000 |
| Gwariant wedi'i Ariannu gan Ardrethi Annomestig | 1,050,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **18,019,887** |
| *Llai:* | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | |
| Benthyca â Chymorth gan Awdurdodau Lleol Cymru | 88,800 |
| Costau casglu ar gyfer Cyfraniadau YG a Threthi Annomestig | 6,078 |
| *Deddf Cymru 2016 Trafodion:* | |
| Incwm o drethi yng Nghymru: | |
| Treth Trafod Tir | 250,000 |
| Treth Gwaredu Tirlenwi | 26,000 |
| Ad-dalu prif fenthyciadau | -120 |
| Benthyca Cyfalaf | 125,000 |
| Heb Arian Parod o Adnoddau | 664,279 |
| AME Heb fod yn arian parod | 53,757 |
| ***Is-Gyfanswm*** | ***1,213,794*** |
| **GWARIANT CYFLENWAD CYFANSWM** | **16,806,093** |
| **Llai o dderbynebau** | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | 1,214,227 |
| Derbyniadau NDR | 1,037,743 |
| **Grant Arian yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru gan Swyddfa Cymru** | **14,554,123** |

Notes
(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau 'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Adnoddau + cyfalaf TGA yn cynnwys dibrisiant.
(3) Mae'r holl eitemau sy'n ffurfio'r cyfrifiad hwn yn cyfeirio at wariant a wneir gan / incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl i'r Trysorlys gyhoeddi data Tryloywder Grantiau Bloc (https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-december-2017-publication), mae'r tabl a oedd yn ymddangos yn rhifynnau blaenorol Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Alban, yn cysoni newidiadau yn y Bloc yng Nghymru o un flwyddyn i'r llall, wedi cael ei derfynu. Dylai defnyddwyr yr wybodaeth hon gyfeirio at ddata Tryloywder Grantiau Bloc y Trysorlys yn lle hynny.

ISBN 978-1-5286-0558-8
CCS0618898832